# Adroddiad Blynyddol Trivallis 2025/26


2025/26 mewn rhifau ... 3
Ein gwerthoedd ... 3
Ein blaenoriaethau craidd ... 4
Gwybodaeth gyfreithiol ... 4
Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd ... 6
Datganiad gan y Prif Weithredwr ... 7
Adroddiad Effaith ... 8
Ein cartrefi - darparu cartrefi a lleoedd o safon ... 8
Ein gwasanaethau - trawsnewid profiad tenantiaid ... 12
Ein cymunedau - grymuso pawb a dylanwadu ar newid ... 15
Ein pobl - cefnogi a thyfu ein cydweithwyr ... 18
Ein systemau data a digidol – sicrhau ymddiriedaeth mewn technoleg ... 22
Gwerth am Arian ... 24
Rhenti fforddiadwy ... 24
Gwerth am arian ... 24
Gwerth cymdeithasol ... 26
Swyddi o ansawdd uchel ... 26
Meincnodi ... 26
Perfformiad ariannol ... 28
Rheoli’r trysorlys ... 30
Hylifedd sydd ar gael ... 30
Ffynonellau cyllid a'u proffil aeddfedrwydd ... 30
Llywodraethu ... 32
Y Bwrdd ... 32
Y tîm gweithredol ... 37
Llywodraethu Corfforaethol ... 38
Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd ... 39
Rheoli risg ... 39
Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd ... 42
Datganiad rheolaeth fewnol ... 44
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar gyfer Aelodau Trivallis Limited ... 46
Barn ... 46
Sail y farn ... 46
Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol ... 46
Gwybodaeth arall ... 47
Barn ar y materion a ragnodir o dan Gylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd" ... 47

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad ..... 47
Cyfrifoldebau'r Bwrdd ..... 48
Cyfrifoldebau’r Archwilydd i archwilio’r datganiadau ariannol ..... 48
Y graddau yr ystyrir yr archwiliad yn abl i ganfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll ..... 48
Defnyddio'r adroddiad archwilio ..... 49

Cymdeithas tai elusennol sy'n cynnig tai fforddiadwy a gwasanaethau i deuluoedd ac unigolion yn Rhondda Cynon Taf, Bae Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yw Trivallis.

Rydyn ni'n rheoli dros 10,000 o eiddo, gan ddarparu cartrefi i oddeutu 25,000 o bobl, ynghyd â gwasanaethau cymorth tenantiaeth o'r radd flaenaf. Rydyn ni'n brif gyflogwr ac yn gweithio gyda chontractwyr lleol sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella lles ein cymunedau a'n preswylwyr.

Rydyn ni'n llawer mwy na landlord yn unig. Rydyn ni'n gweithredu fel Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol.

- Ein tenantiaid sy'n berchen arnom ni.
- Gweithio ar y cyd rhwng tenantiaid, staff a phartneriaid lleol
- Gwreiddiau dwfn yn ein cymunedau
- Cynnwys pobl sydd wedi'u heffeithio gan ein penderfyniadau ni.

## 2025/26 mewn rhifau

| Mesur | 2025/26 |
|---|---|
| Yn fodlon gyda Trivallis | 77% |
| Yn fodlon gydag atgyweiriadau | 86% |
| Cyfanswm y buddsoddi yn ein cartrefi presennol | £40.2miliwn |
| Achosion byw o leithder a llwydni | 839 |
| Dyddiau i gwblhau atgyweiriad ar gyfartaledd | 12.4 |
| Atgyweiriadau wedi'u cwblhau ar amser (pob atgyweiriad) | 87.9% |
| Cydymffurfiaeth statudol | 99.14% |
| Incwm ychwanegol ac arbedion a sicrhawyd i denantiaid drwy'r gwasanaeth Cynghori Ariannol | £5.7miliwn |
| % ôl-ddyledion tenantiaid | 2.74% |
| Pobl a gefnogwyd drwy ein rhaglenni cymorth llesiant | 1,422 |
| Datrys galwadau Canolfan Gyswllt ar y cyswllt cyntaf | 92% |
| % yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gafodd eu datrys dros y flwyddyn | 67% |
| Trosglwyddo cartrefi newydd | 27 |

## Ein gwerthoedd

**1. Dibynadwy**
Dibynadwyedd yw un o gonglfeini ein diwylliant. Mae ymddiriedaeth nid yn unig yn rhywbeth rydyn ni'n ceisio ei hennill gan ein tenantiaid, ein cydweithwyr, a'n cymuned; mae'n werth rydyn ni'n ei arddangos yn ein holl weithredoedd a rhyngweithiadau hefyd.

**2. Caredig**
Mae caredigrwydd wrth wraidd popeth a wnawn. Drwy fod yn garedig wrth ryngweithio o ddydd i ddydd, credwn ein bod yn creu amgylchedd cefnogol a thosturiol i'n tenantiaid, ein cydweithwyr a'n cymuned.

**3. Blaengar**
Rydyn ni'n diffinio cynnydd fel ymrwymiad diysgog i ddysgu, arloesi, ac addasu'n barhaus. Rydyn ni'n cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i wella, croesawu newid, ac annog datblygiad ein cydweithwyr, gan arwain y blaen bob amser.

**4. Cynhwysol**
Rydyn ni'n credu mewn diwylliant o gynwysoldeb sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau, anghenion, a chyfraniadau unigryw pob unigolyn. Rydyn ni'n ymrwymo i drin pob aelod staff a thenant gyda pharch, gan groesawu amrywiaeth, a chymryd camau pendant i ennyn cyfraniad gan bob cwr o'n cymuned.

## Ein blaenoriaethau craidd

**Landlord gwych:** Darparu gwasanaethau landlord rhagorol a chyflawni yn unol â safonau eithriadol.

**Cyflogwr gwych**: Rydyn ni'n ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis, gan gynnig cyfleoedd rhagorol, gweithle cefnogol, ac amodau teg i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Rydyn ni'n ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a darparu cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr.

**Canolbwyntio ar gynaliadwyedd**: Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi sefydlogrwydd ariannol tymor hir ein sefydliad ac yn gweithio i leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. Rydyn ni'n gweithio gyda phreswylwyr i leihau'r effaith ar newid yn yr hinsawdd o fewn cymunedau gymaint â phosibl.

**Ymrwymedig i gynhwysiant**: Mae diwylliant ein cwmni yn gynhwysol ac yn groesawgar. Rydyn ni'n cefnogi tegwch, amrywiaeth a chwarae teg wrth wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau, recriwtio a rheoli.

**Trechu tlodi**: Rydyn ni'n cydnabod effaith tlodi yn ein cymunedau ac yn cymryd camau pendant i weithio i'w leihau drwy ymdrech tîm gyda phartneriaid a chymunedau.

**Dysgu'n barhaus:** Rydyn ni'n gwerthfawrogi dysgu parhaus, yn annog cyflogeion i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd, ac yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio, arloesi a bod yn agored. Rydyn ni'n dysgu o'n profiadau ein hunain a'n cymunedau, ac yn chwilio am syniadau da o fannau eraill i wella ein sefydliad.

## Gwybodaeth gyfreithiol

Rhif Cofrestru Llywodraeth Cymru L143, Rhif Cofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol 30261R. Cymdeithas Gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd

Cymunedol 2014. Cyfeiriad cofrestredig: Trivallis, Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd CF37 2SW.

**Ysgrifennydd y Cwmni**
Lisa Pinney (penodwyd 01/06/2023)

**Tîm Arweinyddiaeth Weithredol**
Duncan Forbes, Prif Weithredwr (penodwyd 01/07/2022)
Keiron Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau (penodwyd 09/03/2022)
Lisa Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau (penodwyd 01/05/2023)
Louise Attwood, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu (penodwyd 21/10/2024)
Gareth Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl (penodwyd 07/05/2025)
Kate Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl (penodwyd 01/04/2024, ymddiswyddodd 31/05/2025)

**Banc**
Lloyds Bank plc, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd, CF37 2TF

**Cyllidwyr**
Lloyds Bank plc, 25 Gresham Street, Llundain, EC2V 7HN
Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3FA

**Archwilydd Allanol**
Menzies LLP, 5ed Llawr Hodge House, 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY

**Archwilydd Mewnol**
Mazars LLP, 45 Church Street, Birmingham, B3 2RT

**Is-gwmnïau:**
Cardiff Bay Homes LLP OC391633 Swyddfa Gofrestredig Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd, CF37 2SW
Porthcwlis Limited 07994420 Swyddfa Gofrestredig Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd, CF37 2SW
Tricwm Limited 16198157 Swyddfa Gofrestredig Tŷ Pennant, Stryd y Felin, Pontypridd, CF37 2SW

# Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd

Nick Beckett

**Gair gan Gadeirydd y Bwrdd**

Mae'n fraint eich croesawu i'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/26. Mae’r flwyddyn hon wedi bod yn un o gynnydd gwirioneddol i Trivallis, wedi'i wreiddio yng nghryfder ein cymunedau, ymroddiad ein cydweithwyr, a'r gonestrwydd a'r gwytnwch a ddangoswyd gan ein tenantiaid. Rwy'n falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, ac yn ddiolchgar am yr ysbryd partneriaeth sydd wedi arwain ein gwaith.

Ar draws ein cartrefi, ein cymdogaethau a'n rhaglen ddatblygu, rydyn ni wedi parhau i gyflawni gwelliannau sy'n gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl. Mae ein prosiectau mawr, yn enwedig ym Mhen-rhys, Bae Caerdydd, a Phen-y-graig, wedi symud ymlaen gyda gofal, pwrpas ac ymrwymiad clir i wneud yr hyn sy'n iawn i'r cymunedau dan sylw. Ym Mhen-rhys yn arbennig, rydyn ni wedi gwrando'n astud ar drigolion, wedi cymryd yr amser i ddeall eu pryderon. Nid mater o adeiladu cartrefi newydd yn unig yw'n gwaith ni; mae'n ymwneud â diogelu hunaniaeth gymunedol a meithrin ymddiriedaeth hirdymor.

Rydyn ni hefyd wedi gweld gwelliannau cryf mewn gwasanaethau sy'n bwysig i'n tenantiaid. Mae atgyweiriadau, gwasanaethau cymdogaeth a chyngor ariannol i gyd wedi cryfhau, wedi'u llywio gan gydweithwyr sy'n dod â chynhesrwydd, empathi a phroffesiynoldeb i'w gwaith. Mae ein dull cymunedol sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi helpu trigolion i arwain canolfannau cymunedol, creu perchnogaeth o fannau amgylcheddol a sicrhau bod prosiectau cymunedol yn ffynnu. Mae'r rhain yn dyst i dosturi a phenderfyniad ein timau.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddarparu goruchwyliaeth glir a chyson, gan gryfhau’r gwaith o lywodraethu a rheoli risg, a chadw llygad barcud ar faterion fel lleithder a llwydni, trawsnewid digidol, iechyd a diogelwch, a gwytnwch ariannol. Rydyn ni wedi croesawu sgyrsiau agored am y pethau sydd angen i ni eu gwella, a gweld bod yr agwedd hon yn creu gweithredu ystyrlon.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn gadarn yn ariannol. Cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb gadarn sy'n diogelu buddsoddi yn y cartrefi presennol, yn cefnogi gwelliannau digidol a data, ac yn galluogi cynnydd ystyrlon ar hyd a lled ein cymunedau.

Ni fyddai hyn yn bosibl heb y bobl sy'n gwneud Trivallis yr hyn ydyw. Hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr am eu hymroddiad, ein tenantiaid am eu cyfraniad a'u hadborth gonest, a’m cyd-aelodau ar y Bwrdd a’r Pwyllgor am eu gwaith craffu, eu her a'u cefnogaeth. Mae Panel Gweithredu’r Tenantiaid yn parhau i ddarparu dealltwriaeth amhrisiadwy, gan gryfhau'r cyswllt rhwng ein gwaith wrth lywodraethu a realiti o ddefnyddio’n gwasanaethau.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydyn ni'n gwneud hynny gyda gobaith a phwrpas. Mae ein gweledigaeth yn glir: darparu cartrefi diogel, cynnes, o ansawdd uchel, a helpu cymunedau i ffynnu. Rwy'n hyderus, gyda'n gilydd, y byddwn ni'n parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, parhaol.

## Datganiad gan y Prif Weithredwr

Duncan Forbes

Wrth i ni fyfyrio ar y flwyddyn a aeth heibio, nid yw ein hunaniaeth fel Cwmni Cydfuddiannol Cymunedol, sy'n eiddo i'n tenantiaid ac wedi'i seilio ar bartneriaeth, erioed wedi teimlo'n bwysicach. Mae ein pwrpas yn dal yn glir: darparu cartrefi diogel, cynnes ac o ansawdd da, a chefnogi lles a gwytnwch y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae eleni wedi gweld cynnydd parhaus tuag at gyflawni ein huchelgais i fod yn landlord gwych. Rydyn ni wedi cryfhau ansawdd ein cartrefi, gwella ein ffordd o ddarparu gwasanaethau, ac wedi cymryd camau i'w gwneud hi'n haws i denantiaid gael mynediad at gymorth pan fydd ei angen arnynt. Ar yr un pryd, rydyn ni wedi datblygu uchelgeisiau adfywio allweddol ac wedi parhau i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor ein cartrefi a'n cymdogaethau.

Rydyn ni'n falch o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae ein gwasanaethau yn ei wneud y tu hwnt i dai. O helpu tenantiaid i lywio pwysau ariannol i wella'r profiad o symud i mewn a chynnal cartref, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth ymarferol, tosturiol ac ymatebol i anghenion sy'n newid.

Fodd bynnag, mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o her sylweddol. Mae'r argyfwng costau byw parhaus yn parhau i effeithio ar lawer o'n tenantiaid, ac mae'r galw am gymorth yn parhau i fod yn uchel. Mae problemau fel lleithder a llwydni yn parhau i fod yn destun sylw, ac er bod ein dull mwy rhagweithiol yn ein helpu i nodi a mynd i'r afael â phroblemau yn gynharach, mae hefyd yn tynnu sylw at raddfa'r gwaith sydd i'w wneud eto.

Yn fewnol, rydyn ni'n parhau i ymrwymo i greu gweithle cefnogol, cynhwysol lle mae cydweithwyr yn cael eu grymuso i roi o'u gorau. Mae adeiladu sefydliad cryf, sy'n seiliedig ar werthoedd yn hanfodol os ydym am gyflawni'r canlyniadau yr hoffem i'n tenantiaid a'n cymunedau.

Wrth edrych ymlaen, rydyn ni'n canolbwyntio ar adeiladu ar y sylfeini hyn - parhau i wella gwasanaethau, cofleidio arloesedd mewn modd cyfrifol, a sicrhau ein bod ni'n parhau i ymateb i anghenion newidiol ein cymunedau.

Hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, a'n tenantiaid am eu hadborth parhaus, eu her a'u partneriaeth. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n llunio cymunedau cryfach, mwy gwydn ar gyfer y dyfodol.

# Adroddiad Effaith

## Ein cartrefi - darparu cartrefi a lleoedd o safon

### Effaith

| | |
|---|---|
| Cartrefi newydd a ddarparwyd | 27 |
| Cartrefi a roddwyd ar osod yn ystod y flwyddyn | 599 |
| Cyfanswm y buddsoddiad a wnaed yn ein cartrefi presennol | £40.2 miliwn |
| Cydymffurfiaeth statudol | 99.14% |
| Cartrefi wedi'u gwella drwy Raglen Gwella Thermol | 198 |
| Cartrefi wedi'u haddasu i wella hygyrchedd | 191 |
| Cartrefi sy'n elwa ar ddrysau a ffenestri newydd | 922 |
| Boddhad gydag atgyweiriadau | 86% |
| Boddhad gyda'r tîm crefftau mewnol | 92% |
| Atgyweiriadau a gwblhawyd yn ystod yr ymweliad cyntaf | 95.9% |
| Nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd | 44,304 |

### Portffolio eiddo

| Anghenion cyffredinol | |
|---|---|
| Tai | 9,478 |
| Cartrefi i bobl hŷn | 628 |
| Tai â Chymorth | 66 |
| **Cyfanswm** | **10,172** |
| Arall | |
| Rhent y farchnad | 52 |
| Masnachol | 53 |
| Garejys | 1,595 |
| Les-ddeiliaid | 613 |
| Eiddo a Reolir | 2 |

### Darparu mwy o gartrefi newydd

Ym mlwyddyn ariannol 2025/2026, cafwyd cynnydd sylweddol ar draws y rhaglen ddatblygu, gyda chyflawniad cryf, canlyniadau cyllido gwell, a chynlluniau adfywio allweddol wedi gweld cynnydd parhaus.

Llwyddwyd i gwblhau 27 o gartrefi newydd, gan fodloni'r targed o 27 cartref newydd a ragfynegwyd yn wreiddiol yn y cynllun busnes. Mae'r llwyddiant o ganlyniad i ddull cyflawni amrywiol, a oedd yn cynnwys cartrefi newydd eu hadeiladu, ailadeiladu stoc bresennol ym Mae Caerdydd, prynu eiddo strategol a phrynu'n ôl, a chartrefi a ddarperir drwy fentrau'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP).

Mae nifer o brosiectau adeiladu byw yn perfformio'n dda, gyda chynlluniau yn Llwydcoed, Windsor Street a Farm Road yn Aberdâr, a William Street yn Ystrad naill ai'n symud ymlaen

neu'n parhau ar y gyllideb. Mae heriau a brofwyd ar safleoedd eraill ynghylch oedi sy'n gysylltiedig â'r tywydd a materion comisiynu, yn cael eu rheoli'n weithredol.

Llwyddwyd i sicrhau £16.8 miliwn o gyllid ar draws sawl ffrwd, gan berfformio'n well na rhagdybiaethau cynlluniau busnes o dros £3 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid o raglenni Grant Tai Cymdeithasol, Tir ar gyfer Tai, TACP, a Thrawsnewid Trefi, gan ddangos perfformiad ariannol cryf a strategaeth ariannu effeithiol.

Ym Mae Caerdydd, cafodd 29 o gartrefi yn Nhŷ'r Rhath eu hadnewyddu. Cwblhawyd y gwaith a throsglwyddwyd eiddo yn ystod y flwyddyn. Mae gweithgarwch Decant wedi camu ymlaen mewn cydweithrediad â gwasanaethau Tai, gan alluogi'r dechrau arfaethedig ar y safle ar gyfer Tŷ Cogan yn 2026/2027, cyn cwblhau Tŷ'r Frenhines Alexandra yn Rhagfyr 2026.

Mae cynlluniau adfywio a datblygu allweddol, gan gynnwys Pen-rhys, Llys Mitchell, a fferm Pentwyn Cynon, yn parhau i fynd rhagddynt trwy gyfnodau cynllunio, dichonoldeb a chyn adeiladu. Mae'r prosiectau hyn yn cynrychioli sylfaen gref a fydd yn cefnogi'r broses o ddarparu tai parhaus a nodau adfywio hirdymor.

Yn gyffredinol, mae'r flwyddyn yn adlewyrchu twf sylweddol mewn datblygu tai, perfformiad cyllido cadarn, a momentwm parhaus ar draws prosiectau adfywio mawr, gan leoli'r rhaglen yn gryf i gyflawni amcanion tai a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

## Gwella gwasanaethau atgyweirio ac eiddo gwag

Rydyn ni wedi parhau i wneud cynnydd cryf eleni wrth ddarparu gwasanaeth atgyweirio gwell, gan wella diogelwch ac ansawdd ein cartrefi, gyda phwyslais amlwg ar leihau amseroedd trwsio a chynyddu bodlonrwydd tenantiaid. Mae cyflwyno'r offeryn diagnostig atgyweiriadau wedi darparu gwybodaeth gliriach i'n tîm crefftau, sydd yn ei dro wedi cynyddu ein perfformiad a'n cyflawniad cyffredinol.

Mae amserlennu gwell a pherfformiad cryfach gan ein timau mewnol wedi cyflawni gwelliannau sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Llwyddwyd i gyflawni record newydd, sef cwblhau 87.9% o'r atgyweiriadau yn brydlon, i fyny 1.9%. Ategwyd hyn gan ostyngiad o 2.5 diwrnod yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau atgyweiriadau.

Yn ogystal, mae perfformiad atgyweiriadau tro cyntaf wedi cynyddu i 95.9%, tra bod cyfran yr atgyweiriadau sydd wedi dyddio wedi gostwng ymhellach i 7.1%, sy'n dangos cynnydd parhaus mewn effeithlonrwydd a gwasanaeth dibynadwy.

Mae'r enillion gweithredol hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at brofiad gwell i gwsmeriaid, gyda lefelau bodlonrwydd cyffredinol yn cynyddu i 86%. Ar ben hynny, mae'r lefelau bodlonrwydd â'n timau crefftau mewnol ar y safle wedi codi i 92%, gan adlewyrchu effaith gadarnhaol darparu gwasanaeth mwy dibynadwy, effeithlon, sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Er gwaetha'r heriau gydag eiddo gwag cymhleth, rydyn ni wedi dod â'r amser cyflawni cyfartalog i lawr i 41 diwrnod ac wedi cyflawni cyfradd bodlonrwydd o 92% ar gyfer cyflwr cartrefi pan fydd tenantiaid yn symud i mewn.

## Cadw cartrefi yn ddiogel

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu cartrefi diogel i denantiaid, ochr yn ochr â chynnal amgylchedd gwaith diogel i staff.

Mae ein perfformiad yn parhau i roi'r sefydliad yn chwartel uchaf Cymdeithasau Tai Cymru, gan roi sicrwydd cryf bod risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol trwy ddull rhagweithiol a strwythuredig o reoli tai.

Yn ystod y flwyddyn, roedd diogelwch tân yn faes blaenoriaeth allweddol o hyd, gyda chefnogaeth cyfundrefnau arolygu gwell, buddsoddiad wedi'i dargedu, ac asesiadau risg cymesur, sy'n canolbwyntio ar y person.

Rydyn ni wedi cryfhau ein dull ymgysylltu â thrigolion hefyd. Roedd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cynnwys Tenantiaid a'r Panel Gweithredu Tenantiaid i wella'r ffordd o rannu gwybodaeth am ddiogelwch. Mae diwrnodau ystadau ar y cyd ar faterion diogelwch tân ac ymgysylltu â thenantiaid wedi'u cyflwyno i gynyddu gwelededd, ymateb i ymholiadau preswylwyr, a helpu tenantiaid i gynnal amgylcheddau cymunedol diogel. Cafodd y gwaith ei ategu gan weithgarwch parhaus i wella diogelwch ardaloedd cymunedol ac archwilio atebion storio ymarferol.

Fe wnaethon ni ailwampio ein proses ar gyfer rheoli lleithder a llwydni. Trwy ddefnyddio monitorau a chysylltu â thenantiaid, fe wnaethon ni nodi 839 o achosion gweithredol. Er bod hyn yn naid sylweddol o'r lefelau a gofnodwyd yn flaenorol, mae'n sicrhau bod ein hagwedd at y mater hwn yn fwy rhagweithiol.

Mae cydweithredu ar draws timau yn parhau i gryfhau ein gallu i gefnogi tenantiaid agored i niwed, gan sicrhau bod cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol yn cael eu cyflawni mewn ffordd ymatebol, gyson a chydgysylltiedig.

Yn gyffredinol, mae ein dull yn rhoi sicrwydd bod Trivallis nid yn unig yn dal i gydymffurfio ond hefyd yn hyrwyddo gwelliant parhaus, ac yn barod i ymateb i newid deddfwriaethol ac arferion gorau sy'n codi.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 100% o'n cartrefi dystysgrifau diogelwch nwy dilys. Hefyd, fe wnaethon ni sicrhau cydymffurfiaeth lawn ar draws meysydd diogelwch allweddol, gan gynnwys rheoli asbestos, hylendid dŵr, ac asesiadau risg tân. Yn ogystal, roedd 99.98% o'n cartrefi yn cydymffurfio â gofynion ardystio diogelwch trydanol.

## Gwella a chynnal a chadw cartrefi presennol

Rydyn ni'n falch o'n cynnydd eleni i wella a chynnal ein cartrefi a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Roeddem wrth ein bodd o gael gradd arian gan SHIFT am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r llwyddiant cyson hwn yn dangos pa mor gadarn yw ein hymdrechion o ran cynaliadwyedd a'n hymrwymiad i adeiladu cymunedau gwyrddach, mwy gwydn.

**Gwelliannau effeithlonrwydd ynni**

Rydyn ni'n parhau i flaenoriaethu perfformiad ynni ein cartrefi presennol, gyda chymorth data cryfach a buddsoddiad wedi ei dargedu. Ar hyn o bryd, mae 71.39% o gartrefi yn bodloni Tystysgrif Perfformiad Ynni 'C' neu uwch, gan godi i tua 80% os defnyddir gwell dull o fodelu data. Dyma gam sylweddol ymlaen ar gyfer deall a gwella perfformiad ein stoc tai.

Yn ystod 2025/26, cafodd 198 o gartrefi eu huwchraddio drwy ein Rhaglen Gwella Thermol, gan gynnwys inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio waliau allanol, rendro a gosodiadau solar a ariennir drwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru. Law yn llaw â hyn, fe wnaethon ni gwblhau 1,899 o asesiadau cartrefi cyfan a chyhoeddi 1,823 o Dystysgrifau Perfformiad Ynni, gan gryfhau ein sail dystiolaeth ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd yn buddsoddi mewn technoleg i gefnogi cartrefi iachach, mwy effeithlon. Mae 175 o synwyryddion amgylcheddol wedi'u gosod, sy'n rhoi gwybodaeth amser real i breswylwyr am dymheredd, lleithder ac ansawdd aer, gan alluogi ymyrraeth gynnar ac amodau byw gwell.

Mae'r rhaglenni hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau tlodi tanwydd, gwella cysur, ac estyn hyd oes a gwytnwch ein cartrefi.

**Datgarboneiddio ac arloesi: cyflawniad arian SHIFT**
Mae ein partneriaeth barhaus â SHIFT, prif safon cynaliadwyedd y DU, yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio. Rydyn ni'n falch o gynnal sgôr arian SHIFT am yr ail flwyddyn yn olynol, gan wella ein sgôr i 52.86% (i fyny o 46.19%).

Mae ein hasesiad diweddaraf yn dangos cyfanswm allyriadau o 29,615 tunnell o $CO_2e$, gyda thai yn cyfrif am oddeutu 95% o'n hôl troed, gan dynnu sylw at ble mae angen gweithredu fwyaf. Mae arloesi yn allweddol ar gyfer lleihau'r effaith hon. Mae ein rhaglen solar yng nghynllun gwarchod Sŵn yr Afon eisoes yn helpu tenantiaid i ostwng biliau ynni a mabwysiadu ymddygiadau mwy cynaliadwy, gan ddangos bod technoleg adnewyddadwy yn gallu darparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol.

Gyda phum mlynedd o ddata amgylcheddol, mwy o lythrennedd carbon (170 o gydweithwyr hyfforddedig), a £4 miliwn o gyllid allanol wedi'i sicrhau, rydyn ni'n gwneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata ac yn cyflymu ein trawsnewidiad i sero net gan wella cartrefi presennol ar yr un pryd.

## Adfywio Pen-rhys

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gwneud cynnydd da ar ailddatblygu Pen-rhys, rhaglen hirdymor i ddarparu tua 900 o gartrefi newydd, gyda 120 o gartrefi yng Ngham 1a. Ym mis Tachwedd 2025, cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y cam cyntaf hwn, gan nodi carreg filltir allweddol. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n aros am benderfyniad ar y cais hwn.

Rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r gymuned leol drwy'r amser, gan sicrhau bod trigolion yn parhau i fod yn ganolog i lunio'r cynlluniau trwy gyswllt parhaus â'n tîm, penseiri a chynllunwyr. Mae eu cyfraniad wedi helpu i fireinio cynigion a chryfhau'r weledigaeth.

Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni'n cynnal proses gaffael gynhwysfawr i nodi contractwr ar gyfer y rhaglen ddatblygu gyfan.

# Ein gwasanaethau - trawsnewid profiad tenantiaid

## Effaith

| | |
|---|---|
| Galwadau a dderbyniwyd i'r ganolfan gyswllt | 69,324 |
| % y galwadau i'r ganolfan gyswllt a atebwyd | 88% |
| % y galwadau a gafodd eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf | 92% |
| Bodlonrwydd cwsmeriaid | 77% |
| % yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gafodd eu datrys dros y flwyddyn | 67% |
| % ôl-ddyledion tenantiaid | 2.74% |
| Incwm ychwanegol ac arbedion a sicrhawyd i denantiaid drwy'r gwasanaeth Cynghori Ariannol | £5.7miliwn |
| Pobl a gefnogwyd drwy ein rhaglenni cymorth llesiant | 1,422 |

## Bodlonrwydd cwsmeriaid

Dangosodd ein harolwg blynyddol o denantiaid a phreswylwyr (STAR) yn hydref 2024 sawl tuedd gadarnhaol, ond rydyn ni'n cydnabod nid da lle gellir gwell. Cynyddodd lefelau boddhad gydag atgyweiriadau a chynnal a chadw o 63% i 66%, a chynyddodd ymddiriedaeth yn y sefydliad o 74% i 76%. Roedd safbwyntiau ar werth rhent a diogelwch yn y cartref wedi gwella ychydig i 81%. Yn nodedig, cynyddodd lefelau boddhad â'r ffordd mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu trin o 53% i 57%. Yn gyffredinol, arhosodd boddhad gwasanaeth yn sefydlog ar 77%.

| **Mesur** | **2024** |
|---|---|
| Mae Trivallis yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt | 61% |
| Mae Trivallis yn rhoi llais i chi ar sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli | 47% |
| Mae cyfle i gymryd rhan ym mhenderfyniadau Trivallis | 46% |
| Mae Trivallis yn darparu cartref diogel | 81% |
| Atgyweiriadau a chynnal a chadw | 66% |
| Ansawdd y cartref yn gyffredinol | 71% |
| Mae'r taliadau gwasanaeth yn werth yr arian | 67% |
| Mae'r rhent yn werth yr arian | 81% |
| Sut mae Trivallis yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | 57% |
| Mae'r cymdogaethau yn lle gwych i fyw | 75% |
| Ymddiriedaeth yn Trivallis | 76% |
| Gwasanaeth a ddarperir gan Trivallis | 77% |

Ffynhonnell: Housemark (% tenantiaid Trivallis oedd yn cytuno â phob datganiad)

## Helpu pobl i ddod o hyd i gartref addas a'i gadw

Gydol y flwyddyn, bu'n gwasanaethau cymorth yn rhan hanfodol o'r dasg o helpu pobl i gael mynediad at dai, setlo'n llwyddiannus a chynnal tenantiaethau sefydlog. Mae ein dull yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a chymorth wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar gryfderau.

Mae **GRAMO (Get Ready and Move On)** yn parhau i baratoi pobl i fyw'n annibynnol, gan gefnogi'r rhai sy'n ddigartref, mewn perygl o ddigartrefedd, pobl sy'n gadael gofal ac unigolion sy'n symud ymlaen o lety dros dro. Trwy fagu hyder, sgiliau bywyd a dealltwriaeth o gyfrifoldebau tenantiaeth, mae'r rhaglen yn helpu pobl i gymryd camau cyntaf cadarnhaol i fyw mewn cartref diogel.

Mae ein **Gwasanaeth Cymorth Celcio MAGPIE** yn cynnig cymorth arbenigol, tosturiol i denantiaid sy'n profi ymddygiadau celcio. Trwy ddull dan arweiniad yr unigolyn, mae'r gwasanaeth yn lleihau risgiau gan alluogi unigolion i wneud newidiadau cynaliadwy ac aros yn ddiogel yn eu cartrefi.

Mae **Gwasanaeth Cymorth Symudol SAFE**, sy'n cael ei ddarparu ledled ardal Taf, yn darparu cymorth hyblyg i bobl waeth beth yw eu deiliadaeth. Trwy ymyrryd yn gynnar a mynd i'r afael â materion cyn iddyn nhw fynd o ddrwg i waeth, mae'r gwasanaeth yn helpu i atal digartrefedd ac yn cefnogi pobl i gynnal sefydlogrwydd. Mae hyn yn amrywio o roi cymorth cynnar lefel isel i ymyrryd yn fwy dwys lle bo angen.

Mae ein **Gwasanaeth Cynaliadwyedd Tenantiaeth** yn gweithio'n agos gyda thenantiaid sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys cymorth tymor byr wedi'i dargedu, ymyriadau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth ac allgymorth cadarn i'r rhai sy'n wynebu sawl her. Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn lleihau achosion o chwalu tenantiaeth ac yn gwella llesiant.

Cryfhawyd y gwaith hwn trwy ein hymrwymiad i ddiogelu. Rydyn ni'n cyfrannu'n llawn at drefniadau amlasiantaeth, gan gynnwys paneli cam-drin domestig a hunan-esgeulustod, ac mae hyn yn sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae ein cyfraniad wedi'i gydnabod gan bartneriaid, yn enwedig wrth gefnogi achosion cam-drin domestig risg uchel trwy gamau ymarferol fel diogelu cartrefi, cwblhau atgyweiriadau brys a galluogi symudiadau diogel. Rydyn ni'n parhau i weithio tuag at ail-achredu gyda'r Gynghrair Tai Cam-drin Domestig (DAHA).

Roedd Swyddogion Tai Cymunedol yn parhau i fod yn hynod weladwy a chysylltiedig o fewn ardaloedd lleol, gan feithrin perthnasoedd dibynadwy a nodi pryderon yn gynnar. Mae cymorthfeydd tai rheolaidd ac ymgysylltu o ddydd i ddydd yn helpu i sicrhau bod preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi, ac yn galluogi ymateb yn brydlon, ar y cyd â sefydliadau partner.

Cefnogwyd hyn gan ddull *tîm o amgylch y denantiaeth*, lle'r oedd gweithwyr yn cydweithio i gyflenwi cymorth cydlynus. Fe wnaeth fframwaith Good Beginnings gryfhau hyn ymhellach trwy sicrhau bod tenantiaid yn derbyn gwybodaeth a chymorth clir o ddechrau eu tenantiaeth, gan eu helpu i setlo'n gyflym a chynnal eu cartrefi.

## Tai gwarchod a thenantiaid hŷn

Parhawyd i gryfhau lles, diogelwch a chysylltiad cymdeithasol ar draws ein 23 cynllun tai gwarchod. Bu gweithgareddau a digwyddiadau rheolaidd yn gymorth i breswylwyr fod yn llai unig ac i feithrin cysylltiadau ystyrlon, gyda chymorth partneriaethau â sefydliadau gan

gynnwys Age Connects Morgannwg, RNIB, Cyfeillion Dementia ac Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian.

Roedd ein menter *Byw'n Dda, Byw gyda'n Gilydd*, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Llwybrau Newydd a Safer Merthyr Tudful, yn darparu mannau diogel a chynhwysol i breswylwyr rannu profiadau, cryfhau perthnasoedd a magu hyder. Mae adborth yn dangos bod preswylwyr yn cael mwy o gyswllt a chefnogaeth ac yn fwy abl i gyfrannu at eu cymunedau, rhywbeth sy'n tanlinellu gwerth dulliau seiliedig ar wrando.

Cynhaliwyd proses ymgysylltu â thenantiaid yn gyson trwy 2,404 o ymweliadau C.A.R.E ac Asesiadau Risg Tân sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCFRAs), gan helpu i hyrwyddo diogelwch unigol a nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar. Roedd yr ymweliadau hyn hefyd yn helpu staff i ddeall amgylchiadau personol yn well a chydlynu cymorth ychwanegol lle bo'r angen.

Ochr yn ochr â hyn, cwblhawyd gwiriadau Lifeline, gan sicrhau bod systemau brys yn parhau i fod yn gwbl weithredol a bod preswylwyr yn teimlo'n hyderus yn eu defnyddio. Ategwyd y gwaith hwn gan weithgarwch diogelwch ehangach, gan gynnwys 3,588 o wiriadau cydymffurfio a 2,392 o wiriadau diogelwch tân a Legionella, gan gynnal safonau uchel ar draws cartrefi ac ardaloedd cymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, treialwyd *Heneiddio'n Dda – Byw'n Dda* hefyd, gan ddarparu cymorth ataliol wedi'i dargedu i denantiaid hŷn sy'n byw mewn cartrefi anghenion cyffredinol. Trwy ymgysylltu rhagweithiol, bu'r treial yn gymorth i nodi risgiau yn gynnar, cryfhau partneriaethau a galluogi mynediad cyflymach at wasanaethau. Dywedodd tenantiaid eu bod nhw'n teimlo mwy o sicrwydd ac wedi'u cefnogi'n well.

Bydd dysgu o'r gwaith hwn yn helpu i lunio gwasanaethau yn y dyfodol, gan ategu pwysigrwydd dulliau rhagweithiol, person-ganolog, sy'n cefnogi annibyniaeth wrth wella diogelwch a lles.

## Gweithio mewn partneriaeth i gadw pobl yn ddiogel

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod wrth wraidd ein hagwedd at gynaliadwyedd tai a thenantiaeth. Trwy weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a sefydliadau arbenigol, sicrhawyd bod tenantiaid yn derbyn cymorth cydlynus ac effeithiol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd cymhleth neu risg uchel.

Roedd gennym ran weithredol mewn trefniadau diogelu amlasiantaeth, gan gyfrannu at gynadleddau amddiffyn plant, fforymau cam-drin domestig a phaneli hunanesgeulustod. Roedd ein gallu i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth tai o'r radd flaenaf yn helpu i wneud penderfyniadau gwell ac ymyriadau amserol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Mae ein dull yn cyfuno atal â gweithredu ymarferol, gan gynnwys gwella diogelwch cartref, cefnogi atgyweiriadau brys a hwyluso symudiadau diogel lle bo angen. Mae'r ymrwymiad hwn yn dangos ein pwyslais ar greu cartrefi a chymunedau mwy diogel i bob preswylydd.

Ar lefel leol, roedd Swyddogion Tai Cymunedol yn parhau i fod yn weladwy ac yn hygyrch, gan weithio'n agos gyda phreswylwyr a phartneriaid i nodi problemau'n gynnar ac ymateb yn gyflym. Roedd eu presenoldeb o fewn cymunedau yn cryfhau perthnasoedd, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn sicrhau bod cefnogaeth yn gyfatebol ac ymatebol.

Fe wnaethon ni barhau i ymwreiddio model tîm cydlynol, seiliedig ar gryfderau o amgylch y tenantiaid, gan alluogi cydweithwyr i rannu gwybodaeth, cysoni ymyriadau ac ymateb yn effeithiol i ystod eang o heriau, gan gynnwys anghenion lles, materion tenantiaeth a phwysau ariannol.

Diolch i waith partneriaeth parhaus, ymgysylltiad rhagweithiol a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bu hyn yn gymorth i denantiaid deimlo eu bod yn ddiogel, yn cael cefnogaeth ac yn hyderus yn eu cartrefi, gan greu cymunedau cryfach, mwy gwydn ar gyfer y dyfodol.

# Ein cymunedau - grymuso pawb a dylanwadu ar newid

## Effaith

| | |
|---|---|
| Oriau gwirfoddoli tenantiaid fel cynghorwyr ac eiriolwyr | 1,261 |
| Polisïau ac agweddau sy'n cael eu dylanwadu gan denantiaid | 23 |
| Pobl sy'n cymryd rhan mewn sgyrsiau dylanwadol (mewnol/cymunedol) | 981 |
| Cyfarfodydd a digwyddiadau gyda llais neu gydgynhyrchiad y tenantiaid | 239 |
| Tenantiaid sy'n mynegi barn (pob oedran) | 981 |
| Digwyddiadau dan arweiniad tenantiaid neu newidiadau cymunedol trwy gydweithio | 51 |

Gwelwyd newid clir yng ngwaith Trivallis eleni, o ddarparu gwasanaethau i alluogi cymunedau, gyda thrigolion yn cyfrannu fwyfwy at lunio, arwain a chynnal gweithgarwch lleol. Cryfhawyd hyn trwy weithio'n agosach gyda gwasanaethau cymdogaeth, yn enwedig Swyddogion Tai Cymunedol, gan greu dull *tîm o amgylch y denantiaeth* mwy perthynol. Yn ei hanfod, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â chysylltiad, pwrpas a pherthyn.

## Dylanwad tenantiaid ar strategaeth a llywodraethu

Mae llais y tenant wrth wraidd dull Trivallis o wneud penderfyniadau. Trwy'r Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP), trwy weithgorau a thrwy gymryd rhan mewn pwyllgorau, mae tenantiaid wedi dylanwadu ar y canlynol:

- Polisi ôl-ddyledion rhent a dulliau teg.
- Tryloywder ac adolygu taliadau gwasanaeth.
- Perchnogaeth paneli solar ac ystyriaethau cost.
- Blaenoriaethau buddsoddi cymunedol a datblygu polisi.
- Dyraniadau a phrosesau tenantiaeth.

Roedd tenantiaid nid yn unig yn dylanwadu ar bolisi. Roedden nhw hefyd yn dylanwadu ar sut mae adnoddau yn cael eu buddsoddi'n lleol trwy ddulliau cyfranogol a phenderfyniadau dan arweiniad y gymuned.

**Effaith**

- Penderfyniadau wedi'u seilio ar brofiad bywyd.
- Mwy o dryloywder ac atebolrwydd.
- Ymddiriedaeth gryfach rhwng tenantiaid a Trivallis.

Mae hyn yn dangos newid clir o ymgynghori i rannu dylanwad a chyd-gynhyrchu.

## Diwylliant lle mae tenantiaid yn mowldio gwasanaethau a chymunedau

Roedd tenantiaid yn cymryd rhan mewn sawl ffordd:

- Panel Gweithredu Tenantiaid a gweithgorau.
- Paneli recriwtio a gweithdai ailgynllunio gwasanaethau.
- Fforymau ar-lein ac ymgysylltu anffurfiol.
- Digwyddiadau cymunedol, sgyrsiau ac arolygon drws i ddrws.
- Cyfarfodydd o 100 a mwy o arweinwyr cymunedol.

Cryfhawyd y fframwaith hwn gan ddull dan arweiniad y gymuned, lle cefnogwyd tenantiaid nid yn unig i roi adborth, ond i weithredu'n lleol hefyd.

## Mowldio a darparu gwasanaethau

Mae presenoldeb tenantiaid wedi gwella gwasanaethau a chymdogaethau yn uniongyrchol:

- **Atgyweiriadau:** Cydgynllunio porth tenantiaid a safonau contractwyr cryfach.
- **Asedau:** Dylanwad tenantiaid ar benderfyniadau buddsoddi a chynaliadwyedd.
- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Meithrin agwedd o atal a phartneriaeth.
- **Gwasanaethau gwarchod**: Gweithgareddau lles a chynhwysiant dan arweiniad tenantiaid.

**Dechrau da**

Gweithiodd tenantiaid gyda staff rheng flaen i ailgynllunio sut mae pobl yn cael eu croesawu i'w cartrefi a'u cymunedau, gan gryfhau cyswllt cynnar a llwyddiant tenantiaeth.

**Diwrnodau gwych i'r gymuned**

Fe'u cynlluniwyd ar y cyd â thenantiaid, a daeth y staff tai, staff atgyweirio ac aelodau'r gymuned at ei gilydd i weithredu ar flaenoriaethau lleol. Ym Mhant-y-cerdin, gweithiodd trigolion ochr yn ochr â staff a chontractwyr i wella eu hamgylchedd. Arweiniodd hyn nid yn unig at welliant ffisegol ond ymdeimlad cynyddol o weithgarwch, balchder a pherchnogaeth hefyd.

Cafodd buddsoddiad cymunedol ei ddylanwadu fwyfwy gan drigolion hefyd, gan gyfeirio cyllid a chymorth at yr hyn sydd bwysicaf yn lleol.

## Gwrando, dysgu ac ymateb

Ledled cymunedau, dywedodd tenantiaid wrthym yn gyson beth sy'n bwysig:

- Balchder bro a hunaniaeth gymunedol.
- Amgylcheddau diogel, glân ac atgyweiriadau ymatebol.
- Cyfleoedd i blant a phobl ifanc.

- Cyfathrebu clir a gwasanaethau gweladwy.

Fe wnaethon ni ymateb drwy weithio ochr yn ochr â thenantiaid i weithredu ar y blaenoriaethau hyn drwy:

- Cyfrannu at waith cyllidebu a gwneud penderfyniadau lleol.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu'n well
- Dulliau ataliol fel *Dechrau Da*.

Yn hyn o beth, gwelwyd newid wrth i ni wrando ac yna cydweithredu gyda chyfrifoldeb ar y cyd.

## Newid dan arweiniad y gymuned ac adeiladu ar yr hyn sy'n gryf

Ar draws ein cymunedau, roedd camau clir tuag at ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder, dan law'r gymuned, gan adeiladu ar berthnasoedd, sgiliau ac asedau lleol.

Dechreuodd trigolion arwain gweithgareddau fwyfwy ar draws 26 cymuned:

- Creu a rhedeg hybiau cymunedol.
- Cefnogi teuluoedd trwy fwyd, llesiant a chysylltiad.
- Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol.
- Llunio mentrau adfywio a chynlluniau lleol.
- Adeiladu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.

**Pa wahaniaeth wnaeth hyn?**

- Cysylltiadau cryfach a llai o ynysu.
- Mwy o hyder ac arweinyddiaeth leol.
- Mynediad gwell at gymorth a chyfleoedd.
- Mwy o falchder yn y gymdogaeth.

Mae buddsoddiadau bach, boed yn gyllid, amser neu gymorth, wedi datgloi gwerth cymdeithasol sylweddol trwy ymddiried yng ngallu'r gymuned i arwain. Rôl Trivallis oedd galluogi, cysylltu a chefnogi fwyfwy, gan greu'r amodau i bobl a chymunedau ffynnu.

*"Rydyn ni'n gwybod eich bod chi'n gefn i ni.. rydyn ni'n un tîm, Trivallis a'r gymuned, gyda'n gilydd."*
*"Alla i ddim credu ein bod ni wedi cyflawni hyn."*
*"Heb y lle hwn, dwi ddim yn gwybod ble fyddem ni... rwy'n gofalu amdano fel fy nghartref fy hun... mae gweld y plant yn dod at ei gilydd ar ôl ysgol yn anhygoel."*
*"Gyda mymryn o gefnogaeth, gallwn wneud cymaint mwy nag y mae pobl yn ei feddwl."*
*"Nid dim ond gofyn am eich barn ni oeddech chi, ry'n ni'n rhan o'i wireddu fe."*
*"Rydych chi wedi gwrando ar yr hyn sydd ei angen arnon ni, nid dim ond beth sy'n hawdd i'w gyflawni."*

# Ein pobl - cefnogi a thyfu ein cydweithwyr

## Cynhwysiant

Ein gweledigaeth yw bod yn wirioneddol gynhwysol, gan ganiatáu i bawb fod yn nhw eu hunain, codi ymwybyddiaeth a chydnabod manteision aruthrol ein cymuned amrywiol. Ar 31 Mawrth 2026, gallwn grynhoi ystadegau ein cydweithwyr fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gwyn | 447 | 94% |
| Du, Asiaidd, ethnig leiafrifol | 10 | 2% |
| Heb ddatgan | 16 | 3% |
| Ddim am ddweud | 20 | 1% |
| Gwryw | 256 | 54% |
| Benyw | 219 | 46% |
| Anabl - Ydyn | 32 | 7% |
| Anabl – Nac ydyn | 437 | 92% |
| Heb ddatgan anabledd | 6 | 1% |
| Deurywiol | 6 | 1% |
| Hoyw (dyn neu fenyw) | 11 | 2% |
| Heterorywiol | 403 | 85% |
| Heb ddatgan | 42 | 9% |
| Ddim am ddweud | 13 | 3% |
| Cristion | 129 | 27% |
| Crefydd arall | 7 | 1% |
| Dim crefydd | 273 | 57% |
| Heb ddatgan | 46 | 10% |
| Ddim am ddweud | 20 | 4% |
| 16-19 | 2 | 0% |
| 20-29 | 61 | 13% |
| 30-39 | 128 | 27% |
| 40-49 | 129 | 27% |
| 50-59 | 107 | 23% |
| 60-64 | 32 | 7% |
| 65+ | 16 | 3% |

## Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel

Rydyn ni'n deall bod arweinwyr gwych yn rhan allweddol o greu profiad cadarnhaol i weithwyr. Eleni rydyn ni wedi parhau i fuddsoddi mewn arweinwyr hyderus, galluog ar draws Trivallis a chynnal ein partneriaeth ddysgu gyda'r Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Datblygwyd ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth er mwyn rhoi i uwch arweinwyr addysg a chefnogaeth wedi'u teilwra sy'n berthnasol i'w lefel o fewn y sefydliad. Rydyn ni'n falch o ddatblygu ein cynnig mewnol er mwyn galluogi rheolwyr presennol neu'r rhai sy'n dymuno datblygu i yrfa reolaethol i feithrin y sgiliau a'r perthnasoedd sy'n ofynnol ar gyfer ffynnu.

Lansiwyd ein rhaglen *Empower*. Mae hyn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cydweithwyr sy'n camu i fyd rheolaeth am y tro cyntaf. Mae'n rhoi'r sgiliau ymarferol a'r wybodaeth sydd eu hangen ar reolwyr newydd i arwain eu timau'n dda o'r diwrnod cyntaf, ac mae'r adborth wedi bod yn wirioneddol gadarnhaol.

Gweithiodd ein tîm Datblygu Pobl gyda rheolwyr i gynnig lleoliadau profiad gwaith ystyrlon ar draws rhannau gwahanol o Trivallis, yn y swyddfa ac mewn rolau cymunedol. Mae adborth cynnar gan gyfranwyr a rheolwyr fel ei gilydd wedi bod yn galonogol.

## Diwylliant cynhwysol

Y llynedd, fe wnaethon ni gwblhau ein rhaglen Cyfathrebu Cydweithredol. Er bod y broses ddysgu wedi gorffen, mae ein timau wedi elwa ar offer a rennir ac iaith gyffredin ar gyfer cydweithio da - gyda'n gilydd a gyda'n tenantiaid. Mae egwyddorion Cyfathrebu Cydweithredol yn rhedeg trwy ein holl fentrau datblygu, arweinyddiaeth a chyfathrebu.

Parhaodd ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydyn ni'n falch o fod wedi derbyn statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, haen uchaf y cynllun, sy'n cydnabod ein hymrwymiad gwirioneddol i recriwtio a chadw a datblygu cydweithwyr ag anableddau. Enillodd Gwasanaethau Corfforaethol wobr arian Diverse Cymru hefyd, sy'n gadarnhad allanol o'r modd rydym ni wedi sefydlu ein hagwedd at gynhwysiant.

Rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar y llwyddiannau hyn trwy ddatblygu agwedd ehangach at *Berthyn* dros y 12 mis nesaf fel rhan o'r rhaglen Profiad Gweithwyr.

## Iechyd a llesiant

Mae llesiant ein cydweithwyr yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Mae conglfaen ein hymrwymiad i lesiant yn dechrau gyda diogelwch. Mae diogelwch yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch sydd wedi cadw ffocws cyson ar draws pum prif thema:

- Iechyd, diogelwch a llesiant
- Cydymffurfio â diogelwch eiddo, adeiladau a landlordiaid
- Risgiau o ran asedau a'r amgylchedd
- Risgiau o ran cerbydau fflyd a gyrru
- Llywodraethu, sicrwydd ac ansawdd data

Parhaodd ein perfformiad diogelwch yn gryf, wedi'i ategu gan ffocws clir a chyson ar adrodd ar ddiogelwch, cydymffurfio, sicrwydd a rheolaethau archwilio cadarn. Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gadarn hon trwy wella ein dull diogelwch a lles cydweithwyr, ymgorffori arferion diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chryfhau ein galluoedd ar draws pob maes gweithredu.

Parhaodd cydymffurfio ar iechyd a diogelwch yn gyson uchel ar draws y sefydliad, gan ddangos ymrwymiad a diwydrwydd ein timau. Ein ffocws yn y dyfodol yw esblygu tuag at fodel diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gysoni ein dull ag egwyddorion sy'n seiliedig ar gryfderau ac ymgorffori diwylliant gofal ymhellach trwy feithrin gallu rheolwyr llinell yn barhaus.

Eleni aethom ati i arolygu pwls yn amlach er mwyn helpu i gadw llygad ar sut mae pobl yn teimlo, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid. O ganlyniad, roedd y wybodaeth amserol yn ein galluogi i ymateb yn gyflym, yn hytrach nag aros am arolwg blynyddol.

Mae gweithio hyblyg yn fater pwysig i gydweithwyr ac mae wedi symud o gam archwilio i weithredu eleni. Ar ôl i ni hyrwyddo trefniadau hyblyg gwelsom gynnydd sylweddol mewn ceisiadau ar draws y sefydliad, arwydd bod cydweithwyr yn teimlo eu bod nhw'n gallu gofyn am yr hyn sy'n gweithio iddyn nhw, a bod ein rheolwyr yn ymateb yn gadarnhaol.

Lansiwyd arolwg 90 diwrnod ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r cwmni, gan roi llais cynnar iddyn nhw allu llunio eu profiad. Mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol dros ben ac eisoes yn ein helpu i fireinio sut rydyn ni'n croesawu cydweithwyr newydd.

Parhaodd ein grŵp llesiant *Thrive* i ddod â chydweithwyr o bob cwr o Trivallis ynghyd sy'n teimlo'n angerddol am iechyd a lles, i helpu i lunio ein cynllun gweithredu lles parhaus. Yn 2025, cynhaliodd y grŵp ddigwyddiadau iechyd menywod, iechyd meddwl dynion ac ymwybyddiaeth o alcohol, a gafodd dderbyniad da iawn.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd Cynhadledd Llesiant a gynhaliwyd gennym ym Mhrifysgol De Cymru. Roedd yn gyfle i bob cydweithiwr gysylltu â mentrau lles corfforol a meddyliol gwahanol mewn amgylchedd hamddenol a chymdeithasol.

## Profiad cydweithiwr

Mae creu profiad boddhaol i gydweithwyr yn hanfodol os ydyn ni'n disgwyl iddyn nhw ddarparu gwasanaeth eithriadol i denantiaid. Mae Trivallis yn dibynnu ar gydweithwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, sy’n llawn diddordeb, ac sy’n gallu perfformio ar eu gorau. Mae profiad y gweithiwr yn elfen allweddol o ran ymgysylltiad staff, y gallu i gadw staff, ac o ran eu llesiant, eu perfformiad a’r gwasanaethau a ddarperir.

Rydyn ni wedi dechrau ystyried ein rhaglen Profiad Gweithwyr a fydd yn ymgorffori pob elfen o daith y gweithiwr gan weithio gyda chydweithwyr i wella pob cam. Bydd y rhaglen yn mabwysiadu dull strwythuredig, cymesur, seiliedig ar dystiolaeth o ddeall a gwella profiad y gweithwyr, gan ddefnyddio map o daith gweithwyr fel y fframwaith cyffredin i nodi pwyntiau cyffwrdd allweddol, bylchau profiad a chyfleoedd blaenoriaeth ar gyfer gwella.

Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno dros sawl blwyddyn ac yn raddol i sicrhau cyflawni canlyniadau sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd Caredig, Blaengar, Dibynadwy a Chynhwysol.

# Ein systemau data a digidol – sicrhau ymddiriedaeth mewn technoleg

## Gwella gwasanaethau digidol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom ni barhau i wella sut mae cydweithwyr a thenantiaid yn rhyngweithio â'n gwasanaethau digidol. Roedd gwelliannau i'n systemau a'n pyrth craidd yn canolbwyntio ar wneud gwasanaethau yn haws i'w cyrchu, yn fwy greddfol i'w defnyddio ac yn cyd-fynd yn well ag anghenion rheng flaen.

Ar ôl cyflwyno *Repairs Diagnostic* ar draws pyrth tenantiaid a staff, mae hyn wedi gwella ansawdd y wybodaeth a gasglwyd ar y cyswllt cyntaf, gan gefnogi diagnosis cyflymach a datrys atgyweiriadau yn fwy effeithlon wrth annog mwy o ddefnydd o hunanwasanaeth digidol.

## Cefnogi cydweithwyr trwy newid

Er mwyn helpu cydweithwyr i fabwysiadu systemau newydd ac esblygol, aethom ati i ehangu ein defnydd o blatfform mabwysiadu digidol. Mae hyn yn darparu arweiniad a dysgu mewn amser real yn y system, ar yr adeg pan fo angen. Mae hyn yn gwella cysondeb, hyder a chydymffurfiaeth ac yn lleihau gwaith llaw, gwallau ac ail-weithio y gellir ei osgoi.

Roedd y dull hwn yn helpu cydweithwyr i weithio'n fwy effeithlon a sicrhau bod newid digidol wedi'i gyflwyno'n gynaliadwy ar draws y sefydliad.

## Cryfhau data a dealltwriaeth

Parhawyd i fuddsoddi yn ein gallu data er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau, diogelwch, cydymffurfiaeth a gwneud penderfyniadau strategol. Mae datblygu'r swyddogaeth Data a Dealltwriaeth, ochr yn ochr â mwy o allu dadansoddol, wedi gwella mynediad at ddealltwriaeth ac wedi cryfhau cynllunio seiliedig ar dystiolaeth.

Rydyn ni'n trosglwyddo i Microsoft Fabric, gan greu platfform dadansoddeg mwy cadarn, fesul tipyn, sy'n integreiddio data'n fwy effeithiol ar draws systemau ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer dadansoddeg uwch a defnydd o AI yn y dyfodol.

## Lansio ein fframwaith llywodraethu data

Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd ar y gwaith o gyflwyno Fframwaith Llywodraethu Data newydd, sy'n canolbwyntio ar wella cywirdeb a chyflawnrwydd data ar draws ein systemau craidd.

## Buddsoddi mewn asedau a chynaliadwyedd

Parhaodd y cynnydd ar systemau sy'n cefnogi rheoli asedau, cydymffurfiaeth a chynaliadwyedd. Mae gwelliannau i reoli Safon Ansawdd Tai Cymru, y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai a data perfformiad ynni wedi cryfhau ein gallu i gynllunio, blaenoriaethu a buddsoddi'n effeithiol mewn cartrefi.

Roedd cyflwyno offer modelu ynni deallus yn gymorth o ran deall perfformiad eiddo yn well a helpu i lywio penderfyniadau buddsoddi fforddiadwy a chynaliadwy sy'n cyd-fynd â'n hamcanion datgarboneiddio.

## Gwella diogelwch a chadernid

Roedd seiberddiogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae profion allanol a gweithgarwch adfer parhaus yn cryfhau ein sefyllfa ddiogelwch ac yn helpu i ddiogelu data sefydliadol a chwsmeriaid. Hefyd, cwblhawyd gwelliannau seilwaith i'n prif swyddfa ym Mhontypridd, gan wella gwytnwch system, lleihau risg a chefnogi parhad busnes.

## Edrych i'r dyfodol

Wrth edrych ymlaen, rydyn ni'n canolbwyntio ar adeiladu sylfeini data a digidol cryf i'n galluogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol yn gyson ac yn eang, trwy ddefnyddio technolegau datblygol yn gyfrifol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i wella canlyniadau i denantiaid.

Mae ein menter Rhagoriaeth Gwasanaeth yn rhan ganolog o'r uchelgais hon. Trwy dîm ymroddedig, rydyn ni'n cefnogi'r sefydliad i ddylunio prosesau gwell, mwy effeithlon, wedi'u seilio ar fethodoleg ddarbodus ac egwyddorion ystwyth. Mae'r dull hwn yn helpu i ddileu gwastraff, symleiddio sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu a sicrhau bod newid yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth rheng flaen ac anghenion cwsmeriaid yn hytrach na chyfyngiadau system.

Trwy roi ffocws ar ragoriaeth gwasanaeth, gwelliant parhaus, cyflenwi ystwyth a llywodraethu data'n gadarn, gallwn fabwysiadu AI mewn modd moesegol a chyfrifol, a defnyddio arloesedd nid er ei fwyn ei hun, ond i wneud gwahaniaeth gwerth chweil a pharhaol i denantiaid.

# Gwerth am Arian

## Rhenti fforddiadwy

Roedd chwyddiant rhent ledled y Deyrnas Unedig yn golygu bod rhenti cyfartalog wedi cynyddu 3.85% i £1,377 ym mis Mawrth 2026. Yma yng Nghymru, roedd chwyddiant yn uwch ar gyfer yr un cyfnod, sef 4.8%, gan fynd â'r rhenti cyfartalog i £830 (2025: £792). Cynyddodd y rhent cyfartalog yn ardal Rhondda Cynon Taf 5.2% i £744, a’r rhent cyfartalog ar gyfer eiddo Trivallis oedd £496.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n adolygu ein taliadau rhent a gwasanaeth, mewn partneriaeth â thenantiaid, aelodau bwrdd a swyddogion, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn deg a fforddiadwy i'n tenantiaid. Rydyn ni'n diweddaru ein model rhenti fforddiadwy (sy'n seiliedig ar egwyddorion fframwaith rhent byw Sefydliad Joseph Rowntree) ar gyfer enillion lleol i sicrhau nad yw'r rhent a godir yn fwy na 23% o incwm aelwydydd.

Gyda'r rhyfeloedd byd-eang yn dal i wasgu ar gostau byw ein tenantiaid, rydyn ni'n ymwybodol y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar ein tenantiaid, ac wedi cynnal y mentrau canlynol:

- Ymyrryd yn gynnar pan fydd ôl-ddyledion yn digwydd
- Cefnogi cyngor ariannol
- Cyfeirio tenantiaid at gefnogaeth annibynnol, e.e. Cyngor ar Bopeth
- Cronfa galedi

Mae'r dull hwn wedi cyflawni sawl llwyddiant sylweddol yn 2025/26:

- £3.2miliwn o gredyd cynhwysol wedi'i hawlio ar gyfer tenantiaid
- £900,000 mewn budd-daliadau tai
- Helpu tenantiaid i hawlio £650,000 mewn budd-daliadau anabledd a salwch
- Cymorth i hawlio £386,000 ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor
- Helpu ein tenantiaid oedran pensiwn i hawlio £225,000 o bensiwn y wladwriaeth, credydau pensiwn a phensiynau eraill

## Gwerth am arian

Ein nod yw bod yn fusnes cynaliadwy sy'n cydbwyso costau ac effeithlonrwydd er mwyn sicrhau'r gwerth ariannol a chymdeithasol gorau ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cartrefi a'n cymunedau. Mae'r amodau economaidd yn dal i fod yn heriol ac mae adnoddau yn cael eu cyfyngu, gan gynnwys cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau strategol. Fel cwmni cymunedol cydfuddiannol, rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu ac adfywio cymunedau a gwella llesiant unigolion a chymunedau. Mae hyn yn golygu bod angen defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, yn deg ac yn economaidd.

Mae ein Fforwm Gwerth am Arian yn dwyn ynghyd gydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad ac yn cyfarfod bob chwarter. Mae'n nodi arbedion ac effeithlonrwydd ledled Trivallis ac yn hyrwyddo agwedd gwerth am arian at wneud penderfyniadau, o welliannau gweithredol i osod cyllideb a chaffael mawr. Mae aelodau'n hyrwyddo gwerth am arian, yn nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion, yn rheoli gwaith caffael a chontractau i sicrhau gwerth, ac yn monitro'r hyn sy'n cael ei gyflawni i sicrhau bod arbedion yn cael eu gwireddu.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd yn goruchwylio'r cynnydd, gan roi diweddariadau rheolaidd i'r Panel Gweithredu Tenantiaid (TAP). Yn 2025/26, mae'r Fforwm yn parhau i weithio o dan dair ffrwd:

- busnes fel arfer, sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth trwy adolygiadau treigl;
- gwerth ychwanegol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwerth ychwanegol gan gontractwyr a gwasanaethau;
- arbedion gwerth am arian, sy'n canolbwyntio ar gytuno ac olrhain effeithlonrwydd sy'n cefnogi'r gyllideb a'r cynllun busnes.

Mae tenantiaid wedi dylanwadu ar ychwanegu gwerth at fentrau gwahanol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cymryd rhan yn y broses gaffael, gwella gwasanaethau (e.e. lleihau ymweliadau ailadroddus sy'n costio tua £286 mil i'r sefydliad). Mae mentrau dan arweiniad y gymuned wedi tystio i effaith gwerth am arian, megis agor yr hyb teuluol ym Mhen Dinas, atal achosion o ynysu, lleihau risgiau diogelu a chostau tai i denantiaid. Ym Mhen-rhys, cafodd 12 o’n tenantiaid gerdyn cynllun ardystio sgiliau adeiladu, a chyflogwyd 7 ohonynt, gan hybu cyflogaeth leol.

Mae buddion cymunedol a chyfraniadau contractwyr wedi gweld 16 o gyflenwyr yn ymrwymo i gynnig ystod o adnoddau ar gyfer gwaith yn ein cymunedau a darparu prentisiaethau (gan gynnwys gwaith mewn ysgolion, darparu lleoliadau i fyfyrwyr). Mae rhoddion uniongyrchol, sy'n amrywio o 1.5 – 2.0% o werthoedd y contract, wedi creu ymrwymiad o £54,508 yn 2026.

Mae'r fframwaith gwerth am arian sydd ar waith wedi helpu deiliaid cyllideb i wreiddio'r egwyddorion hyn mewn penderfyniadau bob dydd. Yn 2025/26, llwyddwyd i gynhyrchu £285,726 o arbedion o brosiectau a mentrau a gychwynnwyd ac a gynhaliwyd gan ddeiliaid cyllideb. Cyflawnwyd £597,114 arall drwy adnewyddu contractau drwy'r broses dendro, wrth gynnal ansawdd i denantiaid.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd Deddf Caffael 2023 ei chynnwys ym mhrosesau’r tîm Caffael er mwyn cynnal rheolaeth ar gostau a sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn cynnwys:

- Gwell cyfathrebu ynghylch gwerth am arian ar draws y sefydliad, trwy ehangu'r ymgyrch " Make it better" a gyflwynwyd ddiwedd 2025.
- Adolygiad o daliadau gwasanaeth i sicrhau bod yr holl gostau yn cael eu hail-godi'n deg ond gyda meddylfryd fforddiadwy i'n tenantiaid
- Uwchsgilio cydweithwyr i leihau costau isgontractwyr
- Ehangu hunanwasanaeth drwy'r porth tenantiaid
- Defnyddio dadansoddeg rhagfynegol i leihau atgyweiriadau ymatebol a gwella cynllunio
- Adolygu a gwella prosesau'n barhaus
- Lleihau milltiroedd ac amser teithio
- Lleihau ymweliadau ailadroddus ar gyfer pob maes o'r busnes
- Adolygu costau eiddo gwag
- Gwneud defnydd gwell o ofod swyddfa.

## Gwerth cymdeithasol

Mae ein trefniadau caffael gyda busnesau lleol nid yn unig yn cadw swyddi ond yn creu gwerth cymdeithasol ychwanegol i'r economi leol hefyd. Fe wnaethom ni gyfraniad allweddol at leihau tlodi a hyrwyddo ffyniant lleol. Yn 2025/26:

- £63 miliwn (2025: £50 miliwn) gyda chontractwyr yn y De, sef 84% o gyfanswm ein gwariant (2025: 79%).
- £12 miliwn (2025: £13 miliwn) gyda chontractwyr y tu allan i Gymru, sef 16% o gyfanswm ein gwariant (2025: 21%).

## Swyddi o ansawdd uchel

Rydyn ni'n gweithio'n galed i fod yn gyflogwr o safon, gan feithrin amgylchedd gwaith lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Rydyn ni wedi’n hardystio fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol, gan warantu bod ein gweithwyr yn ennill cyflog digonol ar gyfer safon byw gweddus. Ar hyn o bryd:

- Rydyn ni'n cyflogi 472 o bobl yn uniongyrchol.
- Mae 75% o'n staff yn byw yn Rhondda Cynon Taf.

## Meincnodi

Mae meincnodi yn ein helpu i asesu perfformiad, nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau, a chefnogi newid sefydliadol effeithiol. Dangosir y dangosyddion perfformiad allweddol a adroddwyd naill ai i Lywodraeth Cymru neu ar gyfer monitro mewnol yn y tabl isod.

| **Mesur** | **2026** | **2025** | **2024** |
|---|---|---|---|
| Cost cynnal a chadw cyffredin fesul uned | £1,571 | £1,568 | £1,461 |
| Cost atgyweiriadau mawr (cyfalaf a refeniw) fesul uned | £2,424 | £2,188 | £2,079 |
| Colled eiddo gwag fesul uned | £227 | £170 | £145 |
| Ôl-ddyledion fesul uned tai cymdeithasol | £510 | £541 | £550 |
| Twf yng nghyfanswm asedau sefydlog | 16.4% | 14.0% | 6.8% |
| Twf mewn trosiant (%) | 3.7% | 4.2% | 5.7% |

Rydyn ni, law yn llaw â'n tenantiaid, yn parhau i brofi pwysau chwyddiant sy'n deillio o amodau geowleidyddol ac economaidd ehangach. Mae'r pwysau hwn wedi cynyddu costau ar draws y sefydliad, yn enwedig mewn perthynas â gwaith mawr, cynnal a chadw arferol ac atgyweiriadau ymatebol. Ar ben hynny, mae cymhlethdod cynyddol y gwaith sydd angen ei wneud i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd wedi cyfrannu at gostau trwsio uwch na'r cyfartaledd a chynnydd mewn gwariant ar atgyweiriadau mawr.

Mae'r twf o 16.4% yng nghyfanswm asedau sefydlog yn adlewyrchu buddsoddiad parhaus mewn cartrefi presennol, gan gynnwys gwariant cynyddol ar atgyweiriadau mawr, gan helpu i sicrhau bod cartrefi yn parhau i fod yn ddiogel, wedi'u cynnal yn dda ac yn addas i denantiaid. Mae hefyd yn adlewyrchu buddsoddiad strategol mewn datblygiad, gan ddangos ein hymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i ateb y galw ledled Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol.

Gostyngodd ôl-ddyledion rhent yn ystod y flwyddyn, trwy gymorth cefnogaeth wedi'i dargedu i denantiaid drwy'r tîm Cynghori Ariannol. Yn ystod y flwyddyn, sicrhaodd y tîm £5.7 miliwn o gymorth ariannol ychwanegol i denantiaid, gan helpu i gryfhau gwytnwch aelwydydd a gwella perfformiad casglu rhenti.

Cynyddodd colledion eiddo gwag yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd gweithgarwch adfywio ym Mae Caerdydd a Phen-rhys. Mae'r cynlluniau hyn yn fuddsoddiadau hirdymor sylweddol ac yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i wella cymunedau a chartrefi presennol. Er bod y gweithgaredd hwn wedi cael effaith tymor byr ar berfformiad eiddo gwag, mae'n cefnogi'r amcan ehangach o ddarparu cartrefi cynnes, diogel a chynaliadwy i denantiaid y gallant ymfalchïo ynddynt, nawr ac yn y dyfodol.

Tyfodd trosiant 3.7% yn ystod y flwyddyn, trwy gyfuniad o godiadau rhent ac incwm o gartrefi newydd a ddatblygwyd. Mae'r twf yn adlewyrchu amseriad cwblhau eiddo ym Mae Caerdydd ynghyd â chynnydd mewn incwm grant, gan gynnwys grant datblygu amorteiddiedig uwch a chyllid grant arall a gydnabyddir yn ystod y flwyddyn.

## Perfformiad ariannol

Mae perfformiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth 2026 yn dangos twf parhaus mewn trosiant o gynyddiadau rhent, rhent o gartrefi newydd a chyllid grant, gan arwain at gronfeydd wrth gefn iach, gorswm gweithredu cyson a chynhyrchu elw gweithredol parhaus, gyda llif arian yn gyffredinol yn dangos buddsoddiad parhaus mewn datblygiad.

Cynyddodd y gorswm gweithredu i 15.3%, er bod hyn wedi'i lywio'n rhannol gan addasiad pensiwn o £900 mil yn dilyn yr ailbrisio blynyddol. Ar sail sylfaenol, gostyngodd elw gweithredu i 14.0% (2025: 14.4%) yn sgil pwysau chwyddiant parhaus ar yr holl gostau, yn enwedig atgyweiriadau a buddsoddi asedau, yn ogystal ag effaith newidiadau i gyfraddau a throthwyon yswiriant gwladol i weithwyr o fis Ebrill 2025.

Mae'r fantolen yn parhau yn gadarn, gyda chronfeydd wrth gefn yn cynyddu i £152.7 miliwn ac asedau sefydlog yn codi i £277.4 miliwn, gan adlewyrchu buddsoddiad parhaus mewn eiddo newydd a chyfredol. Cynyddodd gerio fymryn o 39.9% yn 2025 i 44.3%, gan ddangos gallu ar gyfer datblygu adeiladau newydd yn y dyfodol.

Parhaodd cynhyrchiant elw o weithrediadau yn gryf ar £24.8 miliwn. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso gan fuddsoddiad sylweddol yn y llwybr datblygu, gyda £30.6 miliwn wedi'i fuddsoddi yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ategu gan reolaeth ariannol gadarn, ac wedi ein galluogi i symud ymlaen â'n hamcanion strategol uchelgeisiol.

Rydyn ni'n cynnal cylch rhagfynegi blynyddol cynhwysfawr hefyd, gan gynnwys profi senarios i sicrhau gwydnwch a dangos gallu'r sefydliad i wrthsefyll heriau annisgwyl ac ysgytwadau ariannol untro.

| **Datganiad Incwm Cynhwysfawr y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth** | **2026 £'000** | **2025 £'000** | **2024 £'000** | **2023 £'000** | **2022 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosiant | 68,802 | 66,328 | 63,683 | 60,254 | 57,674 |
| Gwarged Gweithredu | 10,531 | 9,384 | 9,334 | 7,437 | 11,770 |
| **Gorswm Gweithredu** | **15.3%** | **14.1%** | **14.7%** | **12.3%** | **20.4%** |
| Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth | 7,950 | 6,610 | 6,715 | 2,916 | 5,701 |
| Gorswm cyn Treth | 11.6% | 10.0% | 10.5% | 4.8% | 9.9% |
| Yswiriant (EBITDA) | 603.0% | 616.1% | 395.8% | 483.2% | 502.9% |
| Yswiriant (EBITDA MRI) | **145.7%** | **157.6%** | **136.9%** | **185.7%** | **230.7%** |

| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth | 2026 £'000 | 2025 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | 277,415 | 238,413 | 209,156 | 195,874 | 190,905 |
| Asedau Cyfredol Net | 10,170 | 16,523 | 23,258 | 23,932 | 17,767 |
| Credydwyr Tymor Hir | (70,033) | (50,119) | (42,989) | (37,458) | (41,181) |
| Benthyciadau | (64,864) | (58,622) | (50,000) | (49,728) | (49,527) |
| Cronfeydd wrth gefn | 152,688 | 146,195 | 139,424 | 132,620 | 117,964 |
| Gerio | 44.3% | 39.9% | 49.6% | 47.2% | 54.1% |

| Datganiad Llif Arian blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth | 2026 £'000 | 2025 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian net o weithgareddau gweithredu | 24,798 | 24,869 | 16,903 | 19,635 | 23,939 |
| Arian net o weithgareddau buddsoddi | (30,606) | (33,027) | (14,768) | (13,277) | (14,132) |
| Llif arian net o weithgareddau ariannu | 2,596 | 5,494 | (3,575) | (3,528) | (7,849) |
| (Gostyngiad) / Cynnydd mewn Arian Parod | **(3,212)** | **(2,664)** | **(1,440)** | **2,831** | **1,958** |

# Rheoli’r trysorlys

Mae ein Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi yn cyflawni swyddogaeth hanfodol yn goruchwylio ein gweithgareddau i reoli’r trysorlys. Mae hyn yn cynnwys rheoli buddsoddiadau a llif arian, trefniadau bancio, portffolio benthyciadau'r sefydliad gan gynnwys unrhyw weithgaredd ar y farchnad arian a’r farchnad gyfalaf, trafodion deilliannol, a gwarannu. Y diben yw sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol, gan gyflawni'r perfformiad gorau posibl o fewn paramedrau risg y cytunwyd arnynt.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio strategaeth y trysorlys, polisi rheoli’r trysorlys, a pharamedrau risg y trysorlys. Rydyn ni'n gweithredu yn unol â rheolau aur sefydledig, sydd wedi'u gosod ar lefel fwy darbodus na gofynion cyfamod. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn fframwaith rheoledig a bod goddefiant diogelwch addas bob amser yn cael ei gynnal.

Bodlonwyd holl reolau aur Rheoli'r Trysorlys, a chydymffurfiwyd â'r holl gyfamodau yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym Mawrth 2026. Mae'r cynllun busnes 30 mlynedd hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â'r Rheolau Aur a chyfamodau benthyg.

Mae gennym ddigon o hylifedd i fodloni ein rhwymedigaethau ymrwymedig ac unrhyw rwymedigaethau annisgwyl rhesymol. Mae balansau arian parod yn cael eu monitro'n rheolaidd gydol y flwyddyn ar draws cyfnodau rhagolwg o 30 diwrnod, 24 mis a 30 mlynedd. Hefyd, rydyn ni'n cynnal dadansoddiad sensitifrwydd, profion senarios a phrofion straen hylifedd ar ein rhagamcanion llif arian i asesu effaith amodau gweithredol ac ariannol andwyol.


Bydd y Pwyllgor yn adolygu unrhyw angen am gyllid newydd yn flynyddol fel rhan o Strategaeth Flynyddol y Trysorlys. Bydd unrhyw fenthyciad newydd yn cael ei sicrhau ar delerau priodol a rhaid ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi a'r Bwrdd.


## Hylifedd sydd ar gael

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gennym £16.7 miliwn o arian parod (2025: £19.9 miliwn) a chyllid dyled o £26.5 miliwn ar gael ar unwaith (2025: £28 miliwn). Mae ein cyllid a dynnwyd presennol yn creu cyfanswm o £85.2 miliwn (2025: £79.0 miliwn).

## Ffynonellau cyllid a'u proffil aeddfedrwydd

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid a gafwyd ar gyfer Trivallis yn ymwneud â benthyciad tymor gwerth £25 miliwn gyda phroffil aeddfedrwydd 15 mlynedd, a chyfleuster credyd cylchol gwerth £50 miliwn gyda phroffil aeddfedrwydd 5 mlynedd. Gyda £17.1 miliwn arall (2025: £12.3 miliwn) gan Lywodraeth Cymru ar sail ddi-log neu log isel i ariannu datblygiadau yn y dyfodol a rhwymedigaeth prydles gyllid o £19.5 miliwn (2025: £19.4 miliwn), sy'n ymwneud ag ariannu ein cynlluniau Bae Caerdydd a Chwm-bach.




| Rhaniad rhwng dyled sefydlog a dyled newidiol | Swm y ddyled | % y rhaniad |
|---|---|---|
| Sefydlog | £44.5 | 52% |
| Newidiol | £40.6 | 48% |
| Cyfanswm Dyled | £85.2 | 100% |

# Llywodraethu

## Y Bwrdd

Mae Bwrdd y Grŵp yn gyfrifol am fabwysiadu dulliau llywodraethu moesegol a chyfreithiol cadarn ac mae'n monitro ei berfformiad yn erbyn Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae ein Bwrdd hefyd yn goruchwylio ein rheolaeth ariannol ac yn pennu ein hamcanion strategol. Mae'n derbyn adroddiadau ar ein cynnydd, ein llwyddiannau a’n heriau, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae'r Bwrdd yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod gan ein tîm arwain yr arbenigedd i arwain y busnes er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol a chyflawni pethau gwych.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn i bennu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, monitro cydymffurfiaeth gyfreithiol, adolygu cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol, gwneud penderfyniadau ar gyfeiriad strategol a rheolaethau risg, monitro perfformiad a darparu gwasanaethau a monitro hyfywedd a rheolaeth ariannol.

Mae cysylltiad â'n tenantiaid a'n cymunedau yn bwysig i'n Bwrdd ac maen nhw'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn teithiau stoc, teithiau cerdded o amgylch yr ystadau a digwyddiadau tenantiaid gydol y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan chwe Phwyllgor arbenigol sydd â'r arbenigedd i graffu ar feysydd risg allweddol. Mae ein Bwrdd a'n Pwyllgorau yn darparu her adeiladol i sbarduno diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Mae aelodau'r Bwrdd yn sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sector a busnes ehangach ac arferion gorau drwy gymryd rhan mewn dwy sesiwn datblygu strategol bob blwyddyn a mynychu cynadleddau a seminarau allanol.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys 14 o Gyfarwyddwyr Anweithredol a phedwar Aelod Annibynnol sy'n darparu arbenigedd arbenigol i'n Pwyllgorau Sicrwydd, Pobl a Chyllid a Buddsoddiad. Mae’r aelodau'n gwasanaethu am dymhorau tair blynedd, hyd at naw mlynedd ar y mwyaf. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd drwy broses recriwtio gystadleuol i sicrhau bod gennym ystod o sgiliau a phrofiad ar draws llywodraethu corfforaethol, cyllid, datblygu strategaeth, datblygu eiddo, rheoli risg a rheolaethau risg, llywodraeth leol a rheoli tai.

**Amrywiaeth a chynhwysiant y Bwrdd**
Rydyn ni'n ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol, ac yn credu bod safbwyntiau amrywiol yn arwain at benderfyniadau strategol, mwy ystyrlon. Mae cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ar ein Bwrdd yn flaenoriaeth i Trivallis.

Ein nod yw meithrin sbectrwm eang o nodweddion demograffig i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y broses o wneud penderfyniadau yn Trivallis. Mae'r data isod yn cynnwys 13 o Aelodau'r Bwrdd a phedwar Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor. Mae trosiant yn y cyfnod yn adlewyrchu Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| Rhywedd | 61.1% Gwryw<br>38.9% Benyw |
| Ethnigrwydd | 89% Gwyn<br>11% Grwpiau Ethnig eraill |
| Oedran cyfartalog | 56.89 |
| Anabledd | 89% Nac ydyn<br>11% Ydyn |
| Trosiant | 0% |

## Ein Pwyllgorau

| **Y Bwrdd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Sicrwydd | Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi | Pwyllgor Pobl | Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd | Pwyllgor Tai a Chymunedau | Pwyllgor Atodlen 1 |

Mae'r **Pwyllgor Sicrwydd** yn sicrhau bod gan y Grŵp drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a sicrwydd. Mae hefyd yn arwain gwaith archwilio mewnol ac allanol, iechyd a diogelwch, caffael a gwerth am arian, gan roi sicrwydd i'r Bwrdd bod gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni.

Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi** yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad ariannol yn fanwl, gan gynnwys cyllidebu, cynllunio busnes, profion straen ac adrodd ar gyfrifon rheoli. Mae hefyd yn goruchwylio cymeradwyaeth ariannol caffaeliadau, a chynlluniau datblygu newydd ar ran y Grŵp, gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau datblygu masnachol. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am werthuso a chymeradwyo unrhyw gyfleoedd busnes newydd o fewn paramedrau strategaeth gyffredinol y Grŵp a goruchwylio gweithgareddau masnachol ac unrhyw is-gwmnïau masnachol ar ran Bwrdd Grŵp Trivallis. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys buddsoddiad TGCh hirdymor.

Mae gan y **Pwyllgor Pobl** gyfrifoldeb am gynllunio adnoddau dynol yn strategol i gefnogi cyflawniad Cynllun Corfforaethol y Grŵp. Mae hyn yn cynnwys adolygu anghenion arweinyddiaeth y Grŵp yn barhaus ar gyfer rolau gweithredol ac anweithredol ac adolygu trefniadau cyflogaeth a thâl y Grŵp.

Y **Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd** sy’n darparu sicrwydd i Fwrdd y Grŵp o ran cyflawniad, perfformiad, ansawdd a gwerth am arian y gweithgareddau a gynlluniwyd a’r gweithgareddau sy’n cael eu datblygu gan y Grŵp. Mae hyn yn cynnwys rheoli asedau, y rhaglen gynlluniedig a'r rhaglen ddatblygu.

Mae'r **Pwyllgor Tai a Chymunedau** yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Grŵp ar berfformiad, ansawdd a gwerth am arian yr holl wasanaethau a ddarperir i breswylwyr Trivallis ac i dderbynwyr gwasanaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau tai, gwasanaethau cwsmeriaid, cyfranogiad cwsmeriaid a chymunedau, y gwasanaeth atgyweiriadau a'r gwasanaethau llesiant a chymorth. Hefyd, mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am oruchwylio'r

datblygiad ac am argymell y Strategaeth Gwasanaethau Tenantiaid a'r Strategaeth Gymunedol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Mae gan **Bwyllgor Atodlen 1** gyfrifoldeb dirprwyedig gan y Bwrdd am bob mater sy'n ymwneud â chymeradwyo'r defnydd o esemptiadau dan Atodlen 1 o Ddeddf Tai 1996 a cheisiadau am aelodaeth i ddal cyfranddaliadau.

## Aelodau'r Bwrdd

**Nick Beckett – Cadeirydd y Bwrdd**
*Ymunodd Chwefror 2023*
Ymunodd Nick â Bwrdd Trivallis yn Chwefror 2023, gan ddod â phrofiad helaeth ym maes manwerthu ac eiddo. Cyn ymddeol, roedd yn Bennaeth Gweithrediadau yn Hammerson, gan arwain tîm o 1,500 ar draws portffolio o 11 canolfan siopa a manwerthu blaenllaw yn y DU ac Iwerddon. Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol ac Ymddiriedolwr profiadol ac yn Gadeirydd Ffederasiwn Pêl-droed Cerdded Cymru ar hyn o bryd.

**Julian John – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Tai a Chymunedau**
*Ymunodd Medi 2020*
Mae gan Julian 30 mlynedd a mwy o brofiad ym maes iechyd meddwl a thai, gan ddal swyddi uwch mewn elusennau iechyd meddwl blaenllaw yng Nghymru. Ef yw Cyfarwyddwr Mind Cymru ar hyn o bryd. Mae ei feysydd diddordeb yn cynnwys iechyd meddwl, tai, digartrefedd, bregusrwydd, ac atal hunanladdiad. Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Tai a Chymunedau.

**Stephen Brooks – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl**
*Ymunodd Medi 2020*
Mae Steve yn ymgynghorydd, hyfforddwr a Chyfarwyddwr Anweithredol gyda dros 25 mlynedd o brofiad yn cefnogi arweinwyr a sefydliadau nid-er-elw mewn strategaeth, llywodraethu a materion allanol. Cyn hynny, bu'n Gyfarwyddwr Gweithredol Materion Allanol yn Sustrans ac mae wedi dal swyddi uwch gydag Oxfam, y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol. Mae hefyd yn aelod o Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

**Mark Richards – Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd**
*Ymunodd Mawrth 2021*
Dechreuodd Mark ei yrfa yn y diwydiant glo fel syrfëwr mwyngloddio ac adeiladu cyn symud ymlaen i rolau o fewn llywodraeth leol a chymdeithas tai fawr, gan reoli gwasanaethau cynnal a chadw tai. Yn ddiweddarach bu'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru. Bellach wedi ymddeol yn rhannol, mae'n cyfrannu ei arbenigedd i Trivallis, lle mae'n cadeirio'r Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd.

**Angela Priestley – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd**
*Ymunodd Ebrill 2021*
Ymunodd Angela â'r sector tai yn 2010 ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Canolog ac yn Ysgrifennydd Cwmni mewn cymdeithas dai fawr yng Nghymru. Mae ei chyfrifoldebau yn cynnwys strategaeth a thrawsnewid, llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyfathrebu. Mae ganddi ran allweddol yn y gwaith o sicrhau

llywodraethiant ac atebolrwydd cadarn ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Trivallis.

**Martyn Price – Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi**
*Ymunodd Ebrill 2021*
Mae Martyn yn Gyfrifydd Siartredig gyda dros 30 mlynedd o brofiad ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'n arbenigo mewn strategaeth ariannol, cyllid cymdeithasau tai a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n darparu gwerth am arian.

**Claire Hutcheon – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Gorffennaf 2021*
Mae gan Claire dros 16 mlynedd o brofiad o fewn llywodraeth leol, yn gweithio ym meysydd addysg, gwasanaethau plant, a thai ac adfywio. Mae'n Bennaeth Strategaeth Tai a Buddsoddi ar hyn o bryd, ac yn arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau tai strategol, gan gynnwys datblygu polisi a rheoli perfformiad.

**Carol Kay – Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**
*Ymunodd Mawrth 2023*
Mae Carol yn uwch arweinydd hynod brofiadol ym maes tai ledled y DU. Cyn hynny, bu'n gwasanaethu fel Cyfarwyddwr TPAS Cymru ac yn fwyaf diweddar fel rheoleiddiwr tai gyda Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar wella perfformiad y sector, yn enwedig ym maes amrywiaeth, grymuso tenantiaid, a llywodraethu. Bellach, mae'n gweithio fel cwnselydd, seicotherapydd, goruchwyliwr a hyfforddwr, gan arbenigo mewn trawma, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hefyd yn Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Trais Domestig Calan.

**Tony Deakin – Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor**
*Ymunodd Ebrill 2023*
Mae gan Tony dros 25 mlynedd o brofiad ym maes tai cymdeithasol, fel Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod o'r Bwrdd ar draws ystod o sefydliadau. Mae'n Gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**Craig Middle – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Gorffennaf 2023*
Craig yw Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Cyflogwyr Rhanbarthol De Cymru o fewn swyddogaeth Rheoli Cysylltiadau Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae wedi rhoi dros 30 mlynedd o wasanaeth i'r fyddin wrth gefn. Mae ganddo gefndir mewn arweinyddiaeth busnes a chymhwyster ôl-raddedig mewn Arweinyddiaeth Gynaliadwy mewn Adeiladu. Mae'n cymryd rhan weithredol mewn mentrau cymunedol a phartneriaeth.

**William Oliver – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Ebrill 2021*
Mae gan Will brofiad helaeth mewn rolau arweiniol uwch o fewn GIG Cymru ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cynlluniedig o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Mae ganddo arbenigedd sylweddol mewn gwella perfformiad ac ansawdd, cynllunio strategol, a rheoli risg, ynghyd â dros 15 mlynedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn y sectorau tai, gofal a chymorth.

**Julia Attwell – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Gorffennaf 2024*
Mae Julia yn uwch arweinydd a Chyfarwyddwr Anweithredol profiadol gyda chefndir ar draws y sectorau cyhoeddus, tai a'r trydydd sector. Mae wedi dal swyddi uwch ym maes cyfiawnder troseddol ac iechyd meddwl ac ar hyn o bryd mae'n Bennaeth Dealltwriaeth a Blaenoriaethu Newid yn y GIG. Mae hi hefyd yn Anogydd Gweithredol.

**Martin Lewis – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Gorffennaf 2024*
Mae gan Martin dros 35 mlynedd o brofiad yn y sector tai, gan gynnwys uwch rolau arwain o fewn cwmnïau PLC mawr. Mae ganddo brofiad helaeth ym maes datblygu ac mae wedi chwarae rhan allweddol wrth fentora a datblygu arweinwyr y dyfodol yn y diwydiant.

**Mark Hallett – Aelod o'r Bwrdd**
*Ymunodd Hydref 2024*
Mae Mark yn Gyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd a Chynghorydd Arbennig profiadol, gyda dros 30 mlynedd o brofiad yn y sector amgylchedd adeiledig. Cyn hynny, bu'n Gyfarwyddwr Datblygu igloo Regeneration ac mae ganddo sawl rôl ymgynghorol ac anweithredol ar hyn o bryd. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn datblygu cynaliadwy ac ansawdd dylunio.

**Amerjit Barrett – Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd**
*Ymunodd Tachwedd 2025*
Ymunodd Amerjit â Trivallis ym mis Tachwedd 2025 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Sicrwydd. Mae hi'n Gymrawd Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Siartredig ac mae ganddi brofiad helaeth mewn arweinyddiaeth ariannol yn y sector tai, gan gynnwys trysorlys a datblygu.

**Alison Woodward – Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor**
*Ymunodd Tachwedd 2025*
Mae gan Alison dros 20 mlynedd o brofiad mewn Adnoddau Dynol ar draws ystod o sectorau. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Pobl yn Cartrefi Cymru, gyda chyfrifoldeb am AD, dysgu a datblygu, iechyd a diogelwch, a chyfathrebu.

**Vicky Medhurst – Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor**
*Ymunodd Tachwedd 2025*
Mae gan Vicky dros 15 mlynedd o brofiad yn y sectorau elusennol a nid-er-elw ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cyllid The Brandon Trust, gyda chyfrifoldeb am strategaeth ariannol, llywodraethu, adrodd a rheoli risg.

**Darren Xiberras – Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor**
*Ymunodd Tachwedd 2025*
Darren yw Prif Swyddog Ariannol Prifysgol Caerdydd ac mae’n aelod o'i Bwrdd Gweithredol, gyda chyfrifoldeb am strategaeth ariannol a pherfformiad. Mae wedi dal swyddi cyllid uwch ar draws addysg uwch, y sector preifat, a'r sector elusennol.

**Ymddiswyddiadau o'r Bwrdd 2025/26**
Ni chafwyd unrhyw ymddiswyddiadau yn ystod 2025/26.

## Y tîm gweithredol

Mae gwaith bob dydd Trivallis a'i is-gwmnïau, Porthcwlis Limited, Cardiff Bay Homes LLP a Tricwm Limited (y Grŵp), yn cael eu rheoli gan y Prif Weithredwr a thair Cyfarwyddiaeth.

**Duncan Forbes, Prif Weithredwr**
Mae Duncan yn arweinydd a chyfreithiwr profiadol â 35 mlynedd o brofiad yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn ogystal â mentrau cymdeithasol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae ganddo gefndir cryf mewn gweithio gyda chymunedau a Grwpiau amrywiol, gan ganolbwyntio ar feysydd fel tai, gwasanaethau cyhoeddus, tlodi, anghydraddoldeb ac adfywio. Mae ganddo ddiddordeb ac arbenigedd penodol mewn rheoli newid, arweinyddiaeth, llywodraethu, rheoleiddio, a chydlynu gwasanaethau cyhoeddus i wasanaethu'r gymuned yn well. Mae'n frwdfrydig ynglŷn â gwella ansawdd bywyd tymor hir drwy wasanaethau ataliol gwell.

Duncan sy'n arwain y Grŵp.

**Lisa Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau**
Ymunodd Lisa â Trivallis ym Mai 2023 ac mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae ei rôl yn ymdrin â phob agwedd ar gyllid, trysorlys, llywodraethu, caffael, technoleg, data, a gwella'r Grŵp. Hi hefyd yw Ysgrifennydd Cwmni'r Grŵp. Bu'n gyfrifydd cymwysedig ers 30 mlynedd a mwy ac mae ganddi radd MA mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gyda chefndir proffesiynol mewn tai, addysg a gweithgynhyrchu, mae Lisa yn hyrwyddo gwerth am arian a sut y gall technoleg sbarduno effeithlonrwydd y Grŵp.

Mae Lisa yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Cyllid, TG, Data a Gwybodaeth, Perfformiad Corfforaethol, Llywodraethu, Risg a Sicrwydd, Arloesedd, Gwella'r Grŵp, Rheoli Incwm, a Chaffael.

**Keiron Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau**
Mae Keiron yn weithiwr tai cymdeithasol proffesiynol sydd â diddordeb brwd mewn trechu tlodi ac adfywio cymunedol. Dechreuodd ei yrfa fel Swyddog Cynnwys y Gymuned ac yna symudodd i waith ieuenctid. Gweithiodd i gymdeithasau tai amrywiol yn y De cyn ymuno â Trivallis yn 2019 fel Pennaeth Datblygu ac Adfywio. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol ym mis Mawrth 2020. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd yn Rhondda Cynon Taf ac fel Aelod Cymunedol Annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Keiron yn gyfrifol am y swyddogaethau gweithredol gan gynnwys Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned, Rheoli Cymdogaethau, Atgyweiriadau Ymatebol, Rheoli Eiddo Gwag, cynllunio gwaith Cynnal a Chadw, Rheoli Asedau, Rheoli Ystadau, Datblygu ac Adfywio.

**Louise Attwood, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu**
Mae Louise yn gyfrifol am gyflawni ein rhaglenni twf ac adfywio, gan arwain ar sefydlu gweithgareddau gwerthiant llwyr a rhentu preifat, yn ogystal â darparu cartrefi fforddiadwy o

ansawdd uchel ledled y De-ddwyrain. Mae ganddi brofiad helaeth ym maes datblygu ac adfywio tai. Cyn ymuno â Trivallis yn 2024, bu'n gweithio yn y sector tai cymdeithasol ac fel ymgynghorydd eiddo annibynnol, gan reoli prosiectau ar raddfa fawr yn llwyddiannus sydd nid yn unig wedi cynyddu’r stoc dai ond hefyd wedi gwella seilwaith a chydlyniant cymunedol.

**Gareth Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl**
Mae Gareth yn arweinydd profiadol, sy'n cael ei sbarduno gan werthoedd sy'n arbenigo mewn AD, Newid a Thrawsnewid. Gyda 25 mlynedd o brofiad o arwain newid a thrawsnewid sefydliadol mewn amgylcheddau cymhleth, aml-safle mewn amrywiaeth eang o sectorau diwydiant, mae'n angerddol am alluogi strategaethau busnes i sbarduno canlyniadau drwy greu pwrpas yng ngwaith pobl a'u hysbrydoli i gyflawni. Mae hefyd yn Gadeirydd Chwaraeon Anabledd Cymru, sefydliad sy'n hyrwyddo cynhwysiant mewn chwaraeon.

Ymunodd Gareth â Trivallis ym mis Mai 2025 ac mae'n gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Gwasanaethau Pobl, Datblygu Pobl, Fflyd, Iechyd a Diogelwch a Chyfathrebu.

## Llywodraethu Corfforaethol

Fel cymdeithas dai yng Nghymru, rydyn ni'n cael ein rheoleiddio gan reoleiddiwr tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn bodoli i ddiogelu ein tenantiaid a'r buddsoddiad hirdymor yn ein cartrefi, gan sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol yn gyson:

- Cynnal y safonau llywodraethu uchaf
- Darparu cartrefi a gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion ein cymunedau
- Cynnal cadernid ariannol cryf

### Asesiad Rheoleiddiol

Cadarnhaodd ein hasesiad rheoleiddiol diweddaraf, a gwblhawyd yn 2023, ein bod yn cydymffurfio'n llawn ar draws pob maes allweddol; llywodraethu a rheolaeth, hyfywedd ariannol, ac arweinyddiaeth. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos ein hymrwymiad i weithredu fel y dylem, er mwyn y sawl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**Hydref 2023 Trivallis Cyfyngedig – Dyfarniad L143**

### Hunanasesu

Rydyn ni o ddifri ynglŷn ag atebolrwydd. Bob blwyddyn, rydyn ni'n cynnal hunanasesiad trylwyr yn erbyn safonau rheoleiddio, gan roi tystiolaeth glir o'n perfformiad i Lywodraeth Cymru. Mae'r broses hon hefyd yn ein helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer twf, gan lunio cynllun gwella gyda ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod.
Mae ein hunanasesiad diweddaraf ar gyfer 2025–26 ar gael ar ein gwefan o dan 'Adroddiadau’.

## Cod Llywodraethu mabwysiedig

Er mwyn llywio a chryfhau ein ffordd o weithio, rydyn ni wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (2021). Fel rhan o'r gymuned cymdeithasau tai ehangach yng Nghymru, rydyn ni'n ystyried yr egwyddorion hyn yn barhaus er mwyn gwella ein harferion a sicrhau ein bod ni'n gwella drwy'r amser.

# Adroddiad y Pwyllgor Sicrwydd

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn rhan hanfodol o'n fframwaith llywodraethu. Mae'n darparu goruchwyliaeth annibynnol ac yn sicrhau bod ein dull o reoli risg, ein rheolaethau mewnol, a'n dulliau archwilio yn parhau i fod yn gadarn, yn effeithiol a blaengar.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Angela Priestley, arweinydd medrus gydag arbenigedd helaeth ym maes llywodraethu, risg a chydymffurfiaeth gorfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol annibynnol, pob un yn cynnig gwybodaeth arbenigol ym maes cyllid a rheoli risg. Mae'r cyfuniad hwn o brofiad ac annibyniaeth yn galluogi'r Pwyllgor i allu craffu a herio mewn modd adeiladol.

Gan weithio i set o flaenoriaethau wedi'u diffinio'n glir a chynllun gwaith cylchol, mae'r Pwyllgor yn archwilio uniondeb ein hadroddiadau ariannol, yn herio canfyddiadau archwilio yn drylwyr, ac yn llywio gwelliant parhaus ar draws ein fframwaith rheoli mewnol.

Mae gwaith y Pwyllgor yn hanfodol yn ei gefnogaeth i'r Bwrdd, a'r sicrwydd mae'n ei roi o ran bodloni'r holl rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol wrth gynnal arferion rheoli risg cryf ac effeithiol. Mae'r oruchwyliaeth hon yn helpu i sicrhau bod y Grŵp yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion cymunedol gan barhau i fuddsoddi mewn cartrefi a chefnogi cymunedau ffyniannus.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei ddarparu gan Mazars, un o'r prif ddarparwyr yn y sector tai. Mae rhaglen archwilio dreigl tair blynedd gynhwysfawr, sy'n seiliedig ar risg ar waith, wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor, gyda chynnydd a gweithredu argymhellion yn cael eu monitro'n agos ym mhob cyfarfod.

Mae archwiliad allanol yn cael ei gynnal gan Menzies, un o gwmnïau cyfrifyddu sefydledig mwyaf y DU, sy'n gweithredu ers 1912. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynllun archwilio blynyddol, yn adolygu canfyddiadau allweddol, ac yn cwrdd â'r archwilwyr allanol o leiaf unwaith y flwyddyn heb uwch reolwyr yn bresennol, gan sicrhau deialog agored a thryloyw.

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn cyfarfod bob chwarter, ac mae sesiwn ddatblygu ychwanegol bob blwyddyn sy'n benodol ar gyfer sganio'r gorwel ac archwilio risgiau sy'n dod i'r amlwg. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun hefyd, a chadarnhaodd ei fod yn parhau i weithredu'n effeithlon ac yn gymesur gan gynnal egwyddorion tryloywder, atebolrwydd a chysondeb ym mhob agwedd ar ei waith.

# Rheoli risg

Mae yna risgiau sylweddol yn ariannol, yn rheoleiddiol ac i enw da yn gysylltiedig â llawer o'n gweithgareddau. Felly, mae rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol yn hanfodol, nid yn unig er

mwyn diogelu ein gweithrediadau, ond hefyd er mwyn cyflawni ein hamcanion corfforaethol yn llwyddiannus.

Bwrdd y Grŵp yn y pen draw sy'n atebol am reoli risg, gan osod yn glir y parodrwydd i dderbyn risg a'r goddefgarwch o risg ar draws y sefydliad. Mae ein Fframwaith Risg a Sicrwydd yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Sicrwydd ac mae'r Bwrdd yn monitro'r prif risgiau busnes a'r amgylchedd risg allanol ehangach trwy sganio'r gorwel yn rheolaidd.

| **Llinell gyntaf**<br>*Swyddogaethau sy'n rheoli risg* | **Ail linell**<br>*Swyddogaethau sy'n goruchwylio rheoli risg* | **Trydedd linell**<br>*Darparu sicrwydd annibynnol* |
|---|---|---|
| Y Bwrdd | Pwyllgor Sicrwydd | |
| Timau gweithredol:<br>Cymdogaethau<br>Asedau<br>Atgyweiriadau<br>Adnoddau | Tîm sicrwydd:<br>Fframwaith RM<br>Adrodd DPA<br>Goruchwylio polisi | Archwilio mewnol<br>Archwilio allanol<br>Goruchwyliaeth reoleiddiol<br>Adolygiadau annibynnol allanol |

## Risgiau Strategol Allweddol

| **Risgiau allweddol** | **Mesurau lliniaru cyfredol ac arfaethedig** |
|---|---|
| **Cost tanwydd cynyddol a diffyg cyflenwad**<br>Gallai costau tanwydd uchel effeithio'n uniongyrchol ar y gyllideb a gynlluniwyd ac effeithio'n anuniongyrchol ar y gyllideb trwy gost uwch deunyddiau a gwaith contract.<br><br>Os bydd y cyflenwad tanwydd yn lleihau, gallai hyn gyfyngu ar nifer yr apwyntiadau y gallem eu mynychu. | • Cynllunio ac ymarfer parhad busnes<br>• Blaenoriaethu gwaith<br>• Ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau cyflenwad tanwydd<br>• Rhannu teithiau ar gyfer timau rheng flaen<br>• Ail-leoli staff lle bo angen |
| **Newid hinsawdd**<br>Gallai addasu ein dull o ddatblygu a rheoli amgylcheddol mewn ymateb i newid hinsawdd gynyddu costau ac arafu buddsoddiadau mewn cartrefi newydd a phresennol fel y nodir yn y Strategaeth Cartrefi. | • Cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau<br>• Diogelu datblygiadau newydd at y dyfodol<br>• Atebion arloesol ar gyfer cartrefi presennol |
| **Lleithder a llwydni**<br>Sicrhau bod trefniadau rhagweithiol priodol ar waith i atal, nodi ac unioni achosion o leithder a llwydni mewn cartrefi yn effeithiol. | • Trefn arolygu ragweithiol ar gyfer eiddo â blaenoriaeth uchel<br>• Gweithdrefn uwchgyfeirio ar gyfer achosion cymhleth o leithder a llwydni<br>• Gosod synwyryddion i fonitro'r camau rheoli<br>• Hyfforddi cydweithwyr<br>• Atgyweiriadau ymatebol a chynnal a chadw wedi'i gynllunio |

| | |
|---|---|
| **Deallusrwydd Artiffisial** (AI)<br>Mae'r risgiau yn dal i ddod i'r amlwg, ond mae arwyddion cynnar yn dangos bod risg uwch bosibl o dorri ar breifatrwydd, rhagfarn algorithmig, manipiwleiddio a rheoliadau aneglur. | • Polisi deallusrwydd artiffisial<br>• Hyfforddi a datblygu staff<br>• Defnyddio profion achos |
| **Ymosodiad seiber**<br>Ymhlith y risgiau mae galluogi mynediad at ddata personol gan achosi tarfu difrifol ar wasanaethau, dwyn hunaniaeth, cloi systemau gan fynnu pridwerth am ddata gan darfu ar wasanaethau ac effeithio ar ddiogelwch ariannol ac enw da. | • Caledwedd a meddalwedd o safon<br>• Gweithredu SIEM<br>• Monitro SOC<br>• Profion hacio<br>• Staff hyfedr<br>• Achrediad seiberddiogelwch<br>• Systemau wrth gefn a chynlluniau adfer<br>• Data wedi'u rheoli'n dda |
| **Datblygu eiddo**<br>Os na lwyddir i ddarparu eiddo i'r safon ofynnol gall olygu nad yw'r cynllun datblygu yn cael ei gyflawni ac arafwch wrth gyflawni'r Strategaeth Cartrefi yn araf. | • Ymgynghorwyr arbenigol<br>• Cynllunio cadarn<br>• Cyllid a grantiau wedi'u sicrhau<br>• Contract datblygu a gwarantau<br>• Gweithdrefnau symud/adleoli cadarn |

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Strategol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Fel Cymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol, mae'n ofynnol i'r Grŵp gynhyrchu datganiadau ariannol blynyddol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn roi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa a pherfformiad ariannol y Grŵp, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd i'r holl randdeiliaid.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u cymhwyso'n gyson.
- Arddel barn gadarn a gwneud amcangyfrifon rhesymol a darbodus.
- Cydymffurfio'n llawn â safonau cyfrifyddu'r DU a'r Datganiad perthnasol o'r Arfer a Argymhellir, gyda datgeliad clir o unrhyw ymadawiadau sylweddol.
- Asesu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes parhaus a datgelu'r asesiad hwnnw'n glir.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail barhaus, oni bai bod amgylchiadau'n pennu fel arall.

Mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod cofnodion ariannol cadarn yn cael eu cadw yn unol â deddfwriaeth, gan alluogi paratoi datganiadau ariannol yn gywir. Mae systemau cryf o reolaeth fewnol ar waith i ddiogelu uniondeb adrodd ariannol ac i amddiffyn asedau'r Grŵp rhag twyll neu gamddefnydd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gynnal cyfanrwydd y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Grŵp, gan gydnabod y gall deddfau datganiadau ariannol y DU fod yn wahanol i'r rhai sydd mewn gwledydd eraill.

## Busnes gweithredol

Ar ôl adolygu cyllideb 2026/27 y Grŵp, cynllun 30 mlynedd y Grŵp, a gweithdrefnau strategol, mae'r Bwrdd o'r farn bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am ddeuddeg mis o leiaf (cyfnod busnes gweithredol) o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Felly, mae'r sail barhaus o gyfrifyddu yn dal yn briodol.

## Datgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau, hyd eithaf ei wybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Grŵp yn ymwybodol ohoni. Mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn gwybod am faterion archwilio perthnasol a bod gwybodaeth o'r fath wedi'i throsglwyddo i'r archwilydd.

## Archwilydd Allanol

Mae Menzies LLP wedi cytuno i barhau fel archwilydd y Grŵp.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran gan

Nick Beckett, Cadeirydd,
Gorffennaf 2026

## Datganiad rheolaeth fewnol

A ninnau’n landlord cymdeithasol cofrestredig, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu ein bod yn adrodd ar effeithiolrwydd ein system o reolaeth fewnol. Mae'r rheolaethau hyn yn sail i’r modd rydyn ni'n rheoli risg, yn cwrdd â'n cyfrifoldebau rheoleiddio, ac yn diogelu uniondeb ein gweithrediadau. Trwy gynnal rheolaethau mewnol cryf, rydyn ni'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio’n hadnoddau ar y mannau a gaiff yr effaith fwyaf ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau.

Mae ein system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i ddarparu goruchwyliaeth a sicrwydd cadarn. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- Rhaniad clir o gyfrifoldebau rhwng y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, gyda chylch gorchwyl wedi'i diffinio'n dda sy'n sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol.
- Polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan gynnwys lefelau diffiniedig o awdurdod dirprwyedig ar gyfer Pwyllgorau, Cyfarwyddwyr Gweithredol a staff, ochr yn ochr â systemau gwybodaeth diogel sy'n diogelu asedau Trivallis rhag defnydd anawdurdodedig.
- Cynllunio ariannol a monitro perfformiad cadarn, gyda chyllidebau, rhagolygon a dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth o brif risgiau busnes a pherfformiad ariannol ar draws gorwelion tymor byr, canolig a hirdymor. Mae cyfrifon rheoli misol yn cael eu cynhyrchu, gan ymchwilio i unrhyw amrywiadau sylweddol ac adrodd arnynt yn brydlon.
- Gweithlu medrus a phrofiadol, gyda pherfformiad wedi'i reoli trwy fframwaith arfarnu strwythuredig ac ymgysylltiad un-i-un rheolaidd, gan sicrhau atebolrwydd a datblygiad parhaus.
- Adroddiadau chwarterol gan y Cyfarwyddwyr i'r Pwyllgor Sicrwydd ar faterion sy'n effeithio ar risg a rheolaethau mewnol, gan ategu tryloywder a goruchwyliaeth barhaus. Roedd yr asesiad rheoleiddiol (a gyhoeddwyd ar 6 Hydref 2023) yn 'wyrdd' ar gyfer Hyfywedd Ariannol, Llywodraethu a Gwasanaethau i Denantiaid.
- Craffu annibynnol trwy'r Pwyllgor Sicrwydd, sy'n gwerthuso effeithiolrwydd rheolaethau mewnol trwy adolygu adroddiadau gan reolwyr, archwilio mewnol, ac archwilio allanol. Ymdrinnir ag unrhyw wendidau a nodwyd trwy gamau cywiro y cytunwyd arnynt, gyda chynnydd yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. Dylid nodi nad arweiniodd unrhyw adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn at farn sicrwydd cyfyngedig.
- Prosesau cymeradwyo ffurfiol ar gyfer pob menter newydd arwyddocaol, ymrwymiadau mawr, a buddsoddiadau, yn unol â Chynllun Awdurdod Dirprwyedig y Grŵp, gan sicrhau proses benderfyniadau disgybledig.
- Ffocws parhaus ar welliant parhaus, a'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn monitro’r hyn a gyflawnir yn erbyn cynlluniau gweithredol a gweithrediad rhaglenni newid mawr.
- Datganiadau ar barodrwydd i dderbyn risg wedi'u diffinio'n glir, sy'n darparu fframwaith strwythuredig i'r Weithrediaeth a'r uwch reolwyr i gefnogi twf ac arloesedd, wrth gynnal trefn gref ar gyfer llywodraethu a rheoli.

Mae'r Bwrdd wedi cynnal adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd systemau rheoli risg a rheoli mewnol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. Cadarnhaodd yr

adolygiad hwn fod rheolaethau ariannol yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r fframwaith rheoli mewnol yn parhau i gael ei gryfhau yn unol ag arferion gorau sector Llywodraeth Cymru, gan roi sicrwydd bod y Grŵp yn cael ei lywodraethu'n dda ac yn wydn.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran:

Nick Beckett, Cadeirydd
Gorffennaf 2026

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar gyfer Aelodau Trivallis Limited

***AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026***

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trivallis Limited (y 'gymdeithas') a'r is-sefydliadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o incwm cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Chysylltiedig o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cyfunol a Chysylltiedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).
Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r gymdeithas ar 31 Mawrth 2026 a gwarged y grŵp a'r gymdeithas am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015.

## Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'n hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y grŵp a'r gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

## Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Bwrdd o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r grŵp a'r gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi. Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn ei chylch.
O ran ein cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol. Os amlygwn anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatgan perthnasol yn y wybodaeth arall. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, fod cam-ddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.
Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar y materion a ragnodir o dan Gylchlythyr Cymdeithasau Tai RSL 02/10 "Rheolaethau mewnol ac adrodd"

Yn ein barn ni, mewn perthynas â datganiad y Bwrdd ar reolaeth ariannol fewnol:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion canlynol o ran yr hyn y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 neu Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd amdanynt i chi, os, yn ein barn ni:

- nad yw'r gymdeithas wedi cadw llyfrau cyfrif priodol; neu
- nad oes system reoli foddhaol dros drafodion wedi'i chynnal; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a amlinellwyd ar dudalen 61, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau ei fod yn cytuno eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y gwêl y Bwrdd sy'n ofynnol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol, fel y bo'n berthnasol, a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd yn bwriadu datod y grŵp a'r gymdeithas neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig heblaw am wneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag cam-ddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISAs) (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (DU). Mae'r safonau hynny'n gofyn inni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## Y graddau yr ystyrir yr archwiliad yn abl i ganfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll

Rydym yn nodi ac yn asesu'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, ac yna'n dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Wrth nodi ac asesu risg o gamddatganiadau sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Cafwyd dealltwriaeth o gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar y grŵp a'r gymdeithas, gan ganolbwyntio ar y rhai a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar ei weithrediadau. Ymhlith y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a nodwyd gennym roedd y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir Tai 2018, Deddf Tai ac Adfywio 2008, Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, deddfwriaeth ar dreth, deddfwriaeth ar iechyd a diogelwch, a deddfwriaeth ar gyflogaeth.

- Holwyd y Bwrdd gan adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd am dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Adolygwyd rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd hefyd, yn ôl yr angen, i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cafwyd dealltwriaeth o'r rheolaethau sydd ar waith gan y Bwrdd i atal a chanfod twyll.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag unrhyw achosion o dwyll a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Trafodwyd risg twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a chynhaliwyd profion i fynd i'r afael â'r rhain. Amlygwyd y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: deddfau yn gysylltiedig ag adeiladu a darparu tai cymdeithasol, gan gydnabod natur gweithgareddau'r grŵp a'r gymdeithas a natur reoleiddiedig gweithgareddau'r grŵp a'r gymdeithas.
- Adolygwyd datgeliadau datganiadau ariannol a phrofwyd dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Holwyd y Bwrdd ynglŷn ag ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- Cyflawnwyd gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai fod yn arwydd o risg o gam-ddatgan perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau mewnol, profwyd priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac aseswyd p'un a oedd y dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel efallai na fyddwn wedi canfod rhai camddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a pherfformio ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gall hynny gynnwys cydweithrediad, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal twyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac ni ellir disgwyl i ni ganfod pob twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

## Defnyddio'r adroddiad archwilio

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi'n unswydd i aelodau'r gymdeithas fel corff yn unol â Rhan 7 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a Phennod 4 Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallom ddatgelu i aelodau'r gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu dweud wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn arddel atebolrwydd i neb ac eithrio'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.

**Menzies LLP Caerdydd**
Archwilydd Statudol
Llawr 5 Hodge House,
114-116 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd
CF10 1DY
Dyddiad: 30 Gorffennaf 2026